
# Y DINESYDD

Chwefror 2022 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 465 £1.20




*Llun: Urdd Gobaith Cymru*

## Pen-blwydd hapus iawn i Urdd Gobaith Cymru yn 100 oed eleni

**Hanes Ymweliad Archesgob Desmond Tutu ag Ysgol Plasmawr 2012**

**tud. 4**



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Clive Rowlands**

***Golygydd Mawrth:***
***Hywel Jones***

Cyfraniadau erbyn 25 Chwefror at:
hywel.jones4@ntlworld.com
4 Heol Heath Halt, Y Mynydd Bychan,
Caerdydd, CF23 5QF
07967 558462

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau at:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:


## *Golygyddol*

Yn olygydd y mis bach fy mraint yw diolch yn ddidwyll i gynifer o gyfranwyr cyson am eu cyfraniadau, boed eu gwaith yn adroddiadau, erthyglau, newyddion ac ati. Fy niolch penodol i'r Dr Eirian Dafydd, ein cysodydd, am ei gwaith arbennig iawn. Dichon bod ei chymar, Gwilym, yn gefn mawr iddi wrth ei gwaith!

Dros y ddwy flynedd annifyr ddiwethaf gellir ymhyfrydu wrth i'r *Dinesydd* gael ei gyhoeddi'n gyson a di-fwlch. Gwaith tîm yn anad dim. Cyfeiriodd yr Athro E. Wyn James yn ei erthygl flwyddyn neu ddwy yn ôl at Ganmlwyddiant Geni Merêd a'i alw yn 'Dad' *Y Dinesydd.* Yn sicr ddigon y byddai Merêd, yr arloeswr, yn ymfalchïo yn llwyddiant a datblygiad pellach y papur bro.



***Llun: Urdd Gobaith Cymru***

Mae'n gyfnod hanesyddol yn hanes mudiad enwocaf Cymru, sef, yr Urdd wrth iddo ddathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Mae ei gyfraniad unigryw i blant ac ieuenctid Cymru ledled y wlad yn amhrisiadwy. Cyfeirir at hyn gan Gwilym yn ei golofn GR. Bellach mae'r Urdd yn fudiad i Gymru gyfan.

Mae clywed cynifer o blant ac oedolion yr wythnos hon yn morio canu cân Geraint Davies, 'Hei Mistar Urdd', ar draws y wlad gan dorri pob math o record yn falm i'r enaid. Mae Mistar Urdd, symbyliad Wyn Mel, yn dal yn fyw ac yn iach. Hir oes i'r Urdd ac i'r Dinesydd wrth gwrs!

*Clive Rowlands*

## Pen-blwydd Hapus Iawn i Urdd Gobaith Cymru

Urdd 100 1922 - 2022

Dymuna'r *Dinesydd* longyfarch Urdd Gobaith Cymru ar gyrraedd 100 oed ac ar ennill dau deitl Guinness World Records.

1. Y nifer mwyaf o fideos o bobl yn canu yr un gân i gael ei huwchlwytho i Twitter o fewn awr. Chwalwyd y record cynt, a oedd yn 250 – gan i'r Urdd a'i holl ffrindiau lwyddo i uwchlwytho **1176** fideos.

2. Y nifer mwyaf o fideos o bobl yn canu yr un gân i gael ei huwchlwytho i Facebook o fewn awr. Chwalwyd y record cynt, a oedd yn 418, gan i'r Urdd a'i holl ffrindiau lwyddo i uwchlwytho **1176** fideos.

Edrychwn ymlaen yn awr at flwyddyn o ddathlu gyda'r Urdd. Rwyn siwr bod gan ein holl ddarllenwyr lu o atgofion melys a llond trol o brofiadau anhygoel i'w trysori. Diolch yn fawr i'r Urdd am gyfoethogi'n bywydau.

# Colofn G.R.



*"wrth i Ŵyl Ddewi agosáu beth am roi hwb i'r wasg Gymraeg"*

Dyma fi nôl wedi'r seibiant dros y Nadolig gan obeithio eich bod i gyd wedi llwyddo i fwynhau'r Ŵyl er gwaethaf popeth! Erbyn i'r golofn hon weld golau dydd bydd pobl yn dechrau meddwl am ddathlu Gŵyl Ddewi ac ydy mae 2022 yn dechrau "codi stêm!" "Gwnewch y pethau bychain" odd cri ein Nawdd Sant ac felly wrth i Ŵyl Ddewi agosáu beth am roi hwb i'r Wasg Gymraeg drwy brynu o leiaf un llyfr Cymraeg neu archebu un o'r canlynol sef *Golwg, Y Cymro, Y Faner Newydd, Y Wawr, Barddas, Barn* ag ati.

Dros yr Ŵyl cafwyd rhagor o golledion ym marwolaeth pobl megis yr actor Mei Jones, sef, y cymeriad Wali yn y gyfres hynod lwyddiannus *C'mon Midffîld* ar S4C a Penri Jones yr athro a'r llenor a greodd y cymeriad Jabaz yn un o'i nofelau ar gyfer pobl ifanc a drowyd yn gyfres boblogaidd ar S4C. Yna, tu allan i Gymru gwelwyd colli yr Archesgob carismatig Desmond Tutu yn Ne Affrig a'r actor Sidney Poitier yn yr Unol Daleithiau, yr actor du cyntaf i dderbyn Gwobr yr Academi nôl yn 1964 ac yna y pensaer Arglwydd Richard Rogers odd yn gyfrifol am gynllunio adeilad y Senedd ym Mae Caerdydd.

Y llynedd odd Mudiad Meithrin yn dathlu hanner can mlynedd ers ei sefydlu. Tro mudiad yr Urdd ydy hi rwan eleni i ddathlu nid hanner can ond can mlynedd ers i Ifan ab Owen Edwards sgrifennu llythyr at blant a phobl ifanc Cymru yn ei gylchgrawn *Cymru'r Plant* yn eu gwahodd i ymuno â'i fudiad newydd sy bellach wedi rhoi hwb i Gymreictod miloedd lawer o ieuenctid Cymru dros y ganrif o'i fodolaeth.

Eleni hefyd mae RhAG sef Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn dathlu ei saithdeg ar ôl ei sefydlu nôl yn 1952 yn Aberystwyth gan R. E. Griffith, Cyfarwyddwr yr Urdd ar y pryd. Yr enw gwreiddiol ar y mudiad odd Undeb Rhieni Ysgolion Cymraeg. Ar hyd y blynyddoedd mae RhAG wedi ymgyrchu a hybu twf yr Ysgolion Cymraeg. O ganlyniad i gyfarfod a drefnwyd gan y Mudiad ar faes Eisteddfod Genedlaethol Bangor daeth Mudiad Meithrin i fodolaeth yn 1991.

Mae hi'n anodd credu bod blwyddyn wedi mynd heibio ers i gefnogwyr cibddall Donald Trump ymosod ar adeilad y Capitol Hill yn Washington yn Ionawr 2021 a gwneud cymaint o niwed i ddemocratiaeth yn yr Unol Daleithiau. Hyd heddiw mae'r wlad yn dal yn rhanedig a sôn bod Trump yn meddwl sefyll eto yn yr Etholiad Arlywyddol nesa ac os felly bydd hyn yn creu mwy o densiwn a dadlau ac anhrefn yn y wlad.

Y mis diwethaf clywais i sôn ar Radio Cymru am yr 'eira mawr' ar ddechrau mis Ionawr 1982 pan barlyswyd y wlad am wythnosau. Cofiais i ble on i ar y pryd sef ar gwrs Cymraeg i ddisgyblion ysgolion uwchradd Cymraeg yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog hefo tuag 20 o swogs a thuag 80 o wersyllwyr yn bresennol yno. Odd y cwrs i fod i ddod i ben ar ôl brecwast ar y bore Gwener ond pan gododd pawb y bore hwnnw odd tunelli o eira wedi syrthio dros nos a chaethiwo pawb yn y gwersyll am bron wythnos arall! Wrth lwc odd digon o fwyd yn y gegin i'n bwydo i gyd a dychwelodd pawb adre'n ddiogel o'r diwedd ond hefo atgofion lu am yr wythnos ychwanegol ac annisgwyl yn Llangrannog!

Dros yr Ŵyl ces i flas ar ddarllen hunangofiant Ieuan Wyn Jones a diddorol odd clywed am ei gyfnod yn Senedd Cymru ym Mae Caerdydd. Yna am y trydydd tro penderfynais ddarllen hunangofiant Golda Meir *My Life* ddaeth yn Brifweinidog Israel. Mae ei hanes mor anhygoel a hithau wedi codi o deulu Iddewig hynod o dlawd yn Rwsia i fod yn brifweinidog ei gwlad. Cyd ddigwyddiad llwyr odd darllen yn y papurau newydd, a minnau ar ganol darllen hunangofiant Golda Meir fod 'na gwmni ffilmio yn creu ffilm amdani hefo'r actores enwog ac amryddawn Helen Mirren yn y brif ran. Ond odd hyn ddim wrth fodd pawb gan nad odd hi'n Iddewes. Serch hynny byddaf yn sicr o fynd i weld y ffilm pan ddaw i'r fei yn sinemâu'r wlad gan fod gen i gymaint o edmygedd o Golda Meir.

Wel, dyma ni am fis arall ac felly erbyn rhifyn nesa y *Dinesydd* gobeithio bydd y newyddion yn well yn hanes y firws felltith. Ond yn y cyfamser cadwch yn saff a daliwch i wenu a Gŵyl Ddewi hapus i bawb!

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina

**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# Ymweliad Archesgob Desmond Tutu ag Ysgol Plasmawr

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth Archesgob Desmond Tutu ym mis Rhagfyr. Llifo yn ôl wnaeth yr atgofion cynnes am y diwrnod arbennig a chofiadwy hwnnw pan ddaeth y cawr o ddyn, er bychan ei gorff, â'i wen lydan â'i chwethiniad iach ar ymweliad ag Ysgol Plasmawr.

Ar y pumed ar hugain o Hydref, 2012, fe gafodd Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr ymweliad byth gofiadwy gan yr Archesgob Desmond Tutu. Roedd yr Archesgob yn ymweld â Chymru, er mwyn clywed am lwyddiant rhaglen waith Llywodraeth Cymru, *Wales for Africa* ac fe ddaeth i'r ysgol yng nghwmni Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones i glywed am ein cysylltiad agos gyda Ysgol Mosheoshoe II yn Lesotho.

Roedd ei ymweliad yn brofiad unigryw, yn uchafbwynt enfawr gan mai nid bob dydd mae'r Prif Weinidog ac enillydd Gwobr Heddwch Nobel yn ymweld â'r ysgol!

Pleser a braint aruthrol oedd croesawu a chael cwmni unigolyn mor ysbrydoledig ac adnabyddus oedd wedi cyflawni cymaint wrth ymgyrchu yn erbyn apartheid yn Ne Affrica a dros rhyddhau Nelson Mandela o'r carchar yn ystod y 70au a'r 80au. Cododd ymwybyddiaeth ledled y byd ynglŷn â phwysigrwydd hawliau dynol, cynhwysiant a chydraddoldeb; egwyddorion pwysig y mae'r ysgol yn eu harddel yn gryf.

Yn ystod ei ymweliad fe draddododd araith ysbrydoledig ac emosiynol. Roedd ganddo neges glir i'r disgyblion am bwysigrwydd rôl ieuenctid ar draws y byd i ddiogelu cyfle cyfartal i bawb beth bynnag eu rhyw, rhywedd, rhywioldeb, crefydd, hil neu gefndir. Diolchodd i'r ysgol am gynnal cyswllt ag ysgolion yn Lesotho a diolchodd i'r Cymry am eu rhoddion a'u cefnogaeth i drigolion Affrica.



Pwysleisiodd yr egwyddor, *"think global, act local"*, gan sôn am sut y mae ein hymdrechion o fewn yr ysgol, nid yn unig trwy ein cysylltiad â Lesotho, ond trwy waith ein grwpiau mentoriaid cymheiriaid, er enghraifft, grŵp hawliau menywod (Merched Mentrus), grŵp gwrth-homoffobia (Digon) a grŵp gwrth-hiliaeth (Balch) yn medru cael effaith gadarnhaol iawn ar gyfoedion.

Dywedodd yn ei araith nad oedd ots pa mor fach oedd y prosiect neu'r ymgyrch oherwydd y gallai'r prosiect ysbrydoli eraill, a fyddai wedyn yn ysbrydoli rhagor, a thrwy hynny byddai'r neges yn cael ei ledaenu ledled y byd. Yn ôl yr Archesgob, mae unigolion yn medru gwneud gwahaniaeth mawr ar raddfa fawr, fel y gwelwyd trwy ei waith gydol oes ef ei hun. Dysgwyd felly fod gan bawb y gallu i wneud gwahaniaeth.

*John Hayes*

# Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Cafwyd dechrau prysur i 2022 yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg gyda chymaint o newyddion da i'w rannu.

**Eisteddfod Caerdydd**
Cystadlodd nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn Eisteddfod Caerdydd eleni, a llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion hynny a ddaeth i'r brig. Enillodd Lleucu Wiliam, blwyddyn 12, y gystadleuaeth ysgrifennu rhyddiaith i flynyddoedd 10-13. Llongyfarchiadau hefyd i Nansi Bennett, blwyddyn 7, a enillodd gystadleuaeth ysgrifennu barddoniaeth i flynyddoedd 7-9, ac i Owen Weeks, blwyddyn 9, a ddaeth yn drydydd. Da iawn chi!

**Cynrychioli Cymru**
Gyda blwyddyn newydd, daeth cyfleoedd newydd unwaith i'n disgyblion gynrychioli eu gwlad ym myd y chwaraeon. Yn ystod mis Ionawr, cystadlodd Moli Lyons, blwyddyn 13, gyda thîm traws-gwlad Cymru ym Melfast. Llongyfarchiadau mawr iddi! Yn ogystal, dewiswyd tri disgybl i gynrychioli eu gwlad yn y gamp hoci. Mae Lena Davies, o flwyddyn 12, wedi ennill ei lle yn nhîm Cymru o dan 18, a Mia Hall a Soffia Easterby, ill dwy o flwyddyn 10, wedi'u dewis i fod yn rhan o garfan Cymru o dan 16 mlwydd oed.


Soffia, Lena a Mia


Moli


Lleucu


Nansi


Owen

**100 mlwyddiant Urdd Gobaith Cymru**
Roedd llawer o ddathlu brwd yn yr ysgol wrth ddathlu canmlwyddiant Urdd Gobaith Cymru. Wrth gwrs, chwaraeodd y disgyblion eu rhan wrth i'r Urdd dorri 'Record Byd Guinness' gyda fideo o'r disgyblion yn canu 'Hei Mistar Urdd'. Ewch draw i'n tudalen Trydar i wylio ein fideo ni : @YGBroMorgannwg.

# Colofn Natur


## *Caerdydd yn Oes yr Eocene*

**Gethin Jenkins-Jones**



Efallai bod y tywydd wedi bod yn oer ar ddechrau 2022, ond mae'r cyfnod y mae ein peiriant amser yn mynd â ni heddiw, sef yr Eocene, yn gynhesach o lawer.

Pan ddaeth oes y deinosoriaid i ben 66 miliwn o flynyddoedd yn ôl, manteisiodd y mamaliaid yn gyflym ar y cilfachau gwag a adawyd ganddynt. Esblygodd anifeiliaid newydd yn gyflym trwy gydol cyfnod twym a sefydlog y Paleocene. Yna, tua 56 miliwn o flynyddoedd yn ôl, cynhesodd y byd yn gyflym a chododd pontydd tir rhwng Ewrop, Asia a Gogledd America gan alluogi symudiad mawr o famaliaid am y tro cyntaf. Cychwynnodd ail bennod oes y mamaliaid - yr Eocene - ac heddiw awn ni am dro o amgylch darn o jyngl poeth a ddaeth i fod yn Gaerdydd.



*Leptictidium*

Dyma ni, 48 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae'n wawr gynnes a glawog, efo sŵn cyson diferion trwm yn disgyn o'r dail uwch ein pennau. O'n hamgylch mae'r coed yn hynod o dal, a'r canopi trwchus yn cyfyngu'n bellach ar y golau sy'n ein cyrraedd. Wrth edrych arnyn nhw, gwelwn rai cyfarwydd o gyfnodau cynt, fel llawryfau (laurels), coed papaia a chashiw ymysg eraill. Er bod hi'n gychwyn y dydd, nid oes Côr y Wîg yn canu - mae hynafiaid mwyafrif o'n hadar swynol 'mond i'w ffeindio yn Awstralia am y tro. Ond mae sgrech rhai o'r parotiaid cyntaf i'w clywed o'r canopi, ac mae cri aderyn arall i'w chlywed yn y pellter. Wrth gerdded tuag ato, mae gwichio cyfagos yn denu'n llygaid at deulu o *Leptictidium* yn neidio o'n blaen. Fel haid o gangarŵs bychain ciwt efo trwynau hir, mae'r anifeiliaid yma'n nodweddiadol o fforestydd y cyfnod. Mi fydd sawl math gwahanol ohonynt yn y jyngl hon, â'r rhan fwyaf ohonynt llai na throedfedd o faint ac efo deiet amrywiol o ymlusgiaid bach a phryfaid.



*Gastornis*

Wrth gyrraedd sŵn y cri, gwelwn aderyn chwe throedfedd o faint efo pig anferth, coesau pwerus ac adenydd bychain yn cerdded yn araf rhwng y coed. *Gastornis* yw hwn - brenin y jyngl. Nid oes angen i ni boeni, fodd bynnag, gan mai llysieuwr yw'r aderyn hwn. Mae ei big mawr - tra'n edrych yn frawychus - wedi'i addasu i rwygo llystyfiant ac i hollti cnau. Ysglyfaethwyr mwyaf cyffredin Eocene Prydain yw'r *Miacids* - ag edrychai fel racŵn ffyrnig, a mae nhw'n sicr o'n cwmpas yn y jyngl hefyd.

Mae'r *Leptictidium* a *Gastornis* yn anifeiliaid a wnaeth esblygu (yn sicr rhywfaint) yn Ewrop, ond o'n cwmpas mae hefyd anifeiliaid eraill newydd gyrraedd o gyfandiroedd eraill. Mae sŵn brigau'n torri uwchben yn denu'n llygaid at *Adapid* yn dringo trwy'r canghennau. Hwn yw un o'r primatiaid cyntaf, a ddaeth o Asia, ac efo'i gynffon a bysedd hir, mae'n ein hatgoffa o lemyriaid Madagascar heddiw. Yna, gwelwn un o hynafiaid y cnofilod yn gwibio i ffwrdd, yn ogystal â grŵp swil o famaliaid o'r enw'r *Paleotheres* yn bwydo ar ddail. Dyma ddau grŵp arall o anifeiliaid a ddaeth o Asia, a wnaeth rhai o'r *Paleotheres* fudo'n bellach i America lle wnaethon nhw esblygu i fod ymhlith y ceffylau cyntaf. Nid yw'r rhain o'n blaen yn dalach na moch, ond mae siâp eu pennau yn sicr ag edrychiad modern. A dweud y gwir, am y tro cyntaf ar ein taith trwy'r oesoedd, mae nifer o'r creaduriad rydym wedi eu gweld heddiw â rhyw olwg cyfarwydd i ni. Yn wir, erbyn yr Eocene - enw sy'n deillio o'r iaith Roeg ac yn golygu 'gwawr' - esblygodd holl hynafiaid mamaliaid modern.

*Paleotheres*



Hwn oedd cyfnod poethaf oes y mamaliaid. Er y bu i'r ddaear dwymo rhywfaint ambell dro eto, tuedd gyffredinol yr oesoedd canlynol oedd newid i hinsawdd fwy mwyn, tan gychwyn sydyn oes yr iâ 2.5 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Ar ddiwedd yr Eocene gwnaeth newid yn yr hinsawdd arwain at golli nifer o fforestydd glaw'r byd a llawer o anifeiliaid y cyfnod fel yr *Adapids*, *Gastornis* a'r *Leptictidium* welsom ni ar ein taith heddiw. Daeth Ewrop yn sychach ac ychydig yn oerach, gan hebrwng trydedd bennod oes y mamaliaid - yr Oligocene. I fanna awn ni yn ein peiriant amser fis nesaf!

***Lluniau: Laura Giles***

# Merched y Wawr Bro Radur

Prosiect Ynni Gwyrdd, yn Ysgol Bro Dinefwr, oedd dan ystyriaeth ar nos Fercher 1 Rhagfyr. Mr Eirian Davies, Dirprwy Brifathro'r ysgol, roddodd gyflwyniad i ni ar y gwaith arloesol sydd ar droed yn yr ysgol a agorodd ei drysau ym mis Medi 2019. Saif yr ysgol ym mhentref Ffair-fach ger Castell Dinefwr. Esboniodd Eirian Davies iddo gael ei fagu ar fferm laeth ar gyrion y dref, a derbyn addysg gynradd yng Nghwm Ifor, Llandeilo, ac Ysgol y Strade. Pan oedd yn astudio am radd mewn Bioleg ym Mhrifysgol Abertawe, gwelodd nifer o ddatblygiadau arwyddocaol ar waith. Yna cafodd ei benodi'n athro ym mro ei febyd gyda'r gymuned yn ffactor pwysig iddo.

Esboniodd fod Ysgol Bro Dinefwr yn amcanu i fod yn ysgol gynaliadwy addas ar gyfer y dyfodol. Wedi i'r ysgol gael ei hadeiladu, sylweddolwyd bod darn o dir gwlyb oedd yn agos at yr afon. Dyma benderfynu dechrau plannu llysiau yno, a gosod llwybrau addas, gardd synhwyraidd, lleoliad ar gyfer ieir, a llyn ar gyfer hwyaid.

Bu'r datblygiadau yn her gan fod unrhyw arloesi yn golygu menter a pharodrwydd i weithio'n ffyddiog. Bydd cwricwlwm newydd gan yr ysgol erbyn 2023, a bydd gan Gymru gyfan gwricwlwm newydd erbyn 2027.

Ar nos Fercher 5 Ionawr cawsom gwmni Sioned Lewis. Siaradodd â ni o bellter (Sbaen), a theitl ei sgwrs oedd 'O Hel Straeon i Westy Aduniad'.

Wedi'i magu ym mhentref Dolwyddelan, aeth i Goleg y Brifysgol ym Mangor i astudio Cymraeg a Drama. Wedi graddio, cafodd amrywiaeth o swyddi a arweiniodd at gyflwyno rhaglen deledu o'r enw *Bwrw Mlaen* ar gyfer dysgwyr y Gymraeg. Cafodd brofiad yn gwerthu tai gyda chwmni Dafydd Hardy, a bu'n gweithio yn swyddfa hysbysebu Papurau Newydd Gogledd Cymru. Bu'n Swyddog Iaith i'r Mudiad Ysgolion Meithrin am bum mlynedd. Wedyn enillodd gymwysterau cwnsela yng Ngholeg Menai, Prifysgol John Moores, Lerpwl a Chaer. Gweithiodd fel Cydlynydd Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion Uwchradd Gwynedd a Môn ac arwain rhaglen gwnsela Coleg Prifysgol Bangor. Yna yn ystod y cyfnod clo penderfynodd fynd yn hunangyflogedig a chynnig ei gwasanaeth i gleientau ymhell ac agos drwy gyfrwng y We.



Bellach mae llais a chyfraniad Sioned Lewis yn gyfarwydd i ni yng nghyfres ddiweddaraf 'Gwesty Aduniad'. Esboniodd fod y profiadau gwaith amrywiol a gafodd wedi bod yn baratoad ardderchog ar gyfer y gwaith o gwnsela yn y rhaglenni hynny.

Cawsom gyfle yn ail hanner y cyfarfod i holi Sioned Lewis am natur a chefndir y rhaglen. Esboniodd y bydd lleoliad *Gwesty Aduniad* yn symud o Westy Tre-ysgawen, ym Môn, i Westy Iscoed Park, ger Wrecsam, ac y bydd yna fersiwn Saesneg o'r rhaglen dan y teitl *Reunion Hotel* yn ymddangos yn y man, yn ogystal â'r rhaglen Gymraeg.

Llongyfarchwyd hi a mynegodd sawl un eu gwerthfawrogiad o'i chyfraniad blaengar.


*Gwen Emyr*

# Cymrodorion Caerdydd

Nos Wener 3 Rhagfyr cynhaliodd Cymrodorion Caerdydd Ddarlith Goffa i'r diweddar Athro John Gwynfor Jones, Llywydd Anrhydeddus y gymdeithas.

Traddodwyd y ddarlith, dros Zoom, gan y Dr Dylan Foster Evans. Yr oedd y thema a ddewisodd yn un y byddai John Gwynfor yn ei elfen yn ei thrafod. Y teitl oedd, *'Y bugail sydd wedi mynnu cynnal y cyfarfod nos Fercher yn iaith y Saxon': newid iaith yng nghapeli Cymraeg Caerdydd, 1850 – 1914.*

Nododd y Dr Evans nifer o gapeli Saesneg Caerdydd a gychwynnodd eu hanes fel achosion Cymraeg. Fel enghraifft benodol o'r newid iaith cymerwyd hanes cynulleidfa capel Bedyddwyr Llandaf Road, Treganna. Olrheinwyd y trawsnewid dros gyfnod o weinidogaeth tri gweinidog, D.E. Jenkins, Henry Lewis a R.H. Bowen, yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed. Yr oedd y tyndra ieithyddol ar ei ddwysaf yng nghyfnod y canol o'r tri, Henry Lewis. Ni chyfyngwyd y gwrthwynebiad i'r cynnydd a wnaed o Saesneg yn yr addoliad a'r bywyd eglwysig i'r aelodau yn unig. Cafwyd llythyru chwyrn yn newyddiadur yr enwad, *Seren Cymru*, wedi ei ysgogi yn bennaf gan ŵr ifanc o'r enw William Edward Cule.



*Yr Athro John Gwynfor Jones*

Ar un wedd mae'n anodd gweld beth oedd y broblem, gan fod digon o gapeli Saesneg (dau yn Nhreganna) ar gyfer pawb a ddymunai addoli yn yr iaith honno. Fel y dangosodd y Dr Evans, cyfododd yr anhawster oherwydd methiant neu ddiffyg awydd y to hŷn i drosglwyddo'r iaith i'w plant, ond mynnu ar yr un pryd fod y plant yn parhau'n aelodau o gapel y teulu. Rhaid cyfaddef hefyd fod rhai capeli am osgoi colli aelodau. Os mai'r pris am ddal gafael ynddynt oedd newid iaith yr achos, newid iaith fyddai'n rhaid ei wneud.

Saif y capel o hyd ar Llandaf Road, ac iaith yr addoliad erbyn hyn yw Tsieinëeg.

# Merched y Wawr
# Y Felin

Pleser mawr oedd croesawu Siân Lewis i'n cyfarch. Un ohonom ni yw Siân Jobbins, fel yr oedd yn ddisgybl yn ysgolion Melin Gruffydd a Glantaf.

Ers gadael yr ysgol mae ei chyfraniad i fywyd Cymraeg yr ardal yn aruthrol ac ar ôl gwneud ei marc fel Prif Weithredwr Menter Caerdydd mae hi nawr yn Brif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru, y mudiad pwysig a gwerthfawr hwn sy'n diogelu Cymraeg a Chymreictod pobl ifanc ein gwlad.


*Llun o'r we*

Cawsom drosolwg o holl weithgareddau amrywiol Yr Urdd ganddi, yr heriau, y datblygiadau a'r gobeithion i'r dyfodol. Mae'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan yr Urdd yn agoriad llygad i ni gyd. Erbyn hyn busnes mawr yw ac mae ei werth economaidd i Gymru tua £32miliwn y flwyddyn.

Bu cyfnod Covid yn anodd, diswyddo staff, cau gwersylloedd, canslo eisteddfodau a gweithgareddau cymunedol ond na, nid oedd aros yn yr unfan i fod. Bu arallgyfeirio cyffrous gydag amrywiaeth o weithgareddau rhithiol. Agorwyd gwersyll Llangrannog yn ddihangfa i deuluoedd bregus. Aeth Glanllyn yn stiwdio deledu ac ysbyty Covid. Lansiwyd adran ddŵr newydd yng Nglanllyn a pharatowyd gwersyll Amgylcheddol a Lles i'w agor ym Mhentre Ifan, Sir Benfro lle bydd pobol ifanc yn cael profi mwynhau cyfathrebu heb eu teclynnau digidol.

Wedi brwydro'n galed gyda'r Swyddfa Gartef, a chyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, llwyddwyd i roi lloches i ffoaduriaid o Affganistan, (24 o deuluoedd, 73 o blant) yng ngwersyll Caerdydd. Bu'n brofiad llawen a chofiadwy iddynt. Mae'r teuluoedd hyn bellach yn llawn gobeithion am fywyd gwell a ffurfiwyd cyfeillgarwch agos gyda hwy. A chawsant gyfle i ddysgu ychydig o Gymraeg yn ystod ei harhosiad gyda ni.

Diolch i Siân am estyn ein gwybodaeth am waith yr Urdd a dymunwn bob llwyddiant iddi yn y dyfodol. A llongyfarchiadau i'r Urdd ar gyrraedd y 100!

*Mair Robins*

# Merched y Wawr
# Caerdydd



Wrth i ni nesáu at y Nadolig a'r gofid am y covid yn dwysáu eto, cawsom ymgolli'n llwyr ym myd blodau yng nghwmni Ann Mears. Mae Ann yn feistres ar greu gosodiadau rhyfeddol o hardd yn defnyddio blodau a deiliach a chanddi'r ddawn o wneud i'r cwbl ymddangos yn hawdd! Mae wedi ennill sawl gwobr, yn drefnydd blodau mawr ei pharch, ac yn athrawes hael. Roedd nifer ohonom wedi ein swyno gan y sioe flodau anhygoel a drefnwyd gan Ann yn Eglwys Dewi Sant ym 2017. Hynny yn dyst i'w doniau creadigol a thechnegol.

Cawsom ganddi hanes y newid cyfeiriad yn ei gyrfa o fyd cyfrifyddiaeth i fyd blodau. Soniodd am ei hyfforddiant a phwysigrwydd cyfarwyddo efo'r dechneg o drin blodau. Cawsom wers ar sut i greu gosodiadau Nadoligaidd anarferol a hardd gan wybod ym mêr ein hesgyrn na fyddai ein hymdrechion ni yn edrych hanner cystal â rhai Ann!!

Mae gwytnwch rhyfedda yn perthyn i lywydd ein cangen ni! Torrodd ei braich yn ddiweddar, peidiwch â gofyn sut y digwyddodd hynny! Ond wnaeth yr anffawd ddim amharu o gwbwl ar ei hegni, ei brwdfrydedd a'i meddwl miniog. Nid rhyfedd felly mai hi gamodd i'r bwlch fis Ionawr i annerch y gangen pan glywsom ar yr unfed awr ar ddeg fod salwch teuluol yn golygu na allai ein gwestai ymuno efo ni wedi'r cyfan! Un felly yw Dr Rosina Davies a'n difyrrodd gyda sgwrs am Winifred Coombe Tennant neu 'Mam o Nedd' i roi iddi ei henw yn yr Orsedd. Merch ddylanwadol a lliwgar ei chyfnod (1874-1956) - noddwraig celf, ffeminydd, ymgyrchydd dros hawliau dyngarol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ymgeisydd seneddol dros y Blaid Ryddfrydol a ffrind agos i Lloyd George. Hi oedd y fenyw gyntaf i gynrychioli'r Deyrnas Unedig yng Nghyngrair y Cenhedloedd. Bu hefyd yn Feistres y Gwisgoedd i'r Eisteddfod Genedlaethol gan fynnu tacluso'r Orsedd!! Roedd yn ferch arloesol a radical!!! Roedd yn anghonfensiynol gan weithredu yn y dirgel fel *medium* uchel ei pharch. Clywsom gan Rosina i Winifred gadw dyddiaduron manwl a rheiny yn drysorfa o hanes personol, cymdeithasol, gwleidyddol a chelfyddydol y cyfnod. Mae'r rheiny yng nghofal y Llyfrgell Genedlaethol. Fel nifer o ferched dylanwadol y cyfnod prin iawn yw'r sylw sydd wedi ei roi iddi hi. Roedd diddordeb Rosina yn Winifred yn heintus gan greu ynom ninnau y chwilfrydedd i fynd i dwrio ymhellach yn llyfrau Peter Lord am ragor o'i hanes.





*Rhian Williams*

## Noel Owen Williams



Bu farw Noel Owen Williams, actor a chyflwynydd Cymraeg, yn 94 oed ar Ionawr 15 2022.

Yn wreiddiol o Lanbedrog, dechreuodd ei yrfa fel athro yng Nghaerdydd wrth weithio'n rhan amser yn darlledu'r newyddion ar gyfer BBC Cymru a Radio Cymru yn ystod y 60au. Cyn hynny yr oedd wedi darlledu ar yr orsaf radio Gymraeg answyddogol, Radio Ceiliog.

Ymddeolodd fel athro i ddilyn gyrfa ym myd actio. Ymddangosodd mewn nifer o ddramâu S4C megis *Cysgodion Gdansk* (1987*), Barbarossa* (1989), *Hedd Wyn (1992)* ac *Oed Yr Addewid (2001).*

Ymhlith rhai o'i brif rannau eraill bu'n actio yn nramâu teledu Saesneg megis *The Snow Spider* (1988) a *A Christmas Reunion* (1994) wedi ei selio ar lyfr T. Llew Jones *Tân ar y Comin* ac yn cyd-serennu gyda James Coburn ac Edward Woodward.

Un o uchafbwyntiau ei yrfa oedd ei ran yn y gyfres *Lleifior* (1993), Ef oedd yn chwarae rhan Karl Weissmann, Almaenwr hoffus a ddaeth i weithio yn Lleifior pan oedd yn garacharor rhyfel ac a ddaeth yn ei ôl ar ôl y rhyfel.

Roedd Noel yn ymgyrchwr brwd dros yr iaith a bu hefyd yn ymgeisydd Plaid Cymru dros Ddwyrain Y Rhondda yn Etholiad Cyffredinol 1959. Bu yn Gynghorydd Lleol brwdfrydig yng nghymuned Gwenfo am nifer o flynyddoedd.

Yn Gymro balch ac yn gymeriad unigryw, mae'n cael ei oroesi gan ei wraig o 61 mlynedd, Lena a'i tri phlentyn, Huw, Rhys a Ffion, pump o wyrion Dafydd, Erin, Mali, Wil a Morus, merched yng nghyfraith Sara a Sioned a mab yng nghyfraith Leigh.

# Aelwyd Hamdden

Yn ystod misoedd Rhagfyr 2021 a Ionawr 2022 cynhaliwyd cyfarfodydd yng nghwmni pedwar o siaradwyr diddorol ac amrywiol eu testunau ar Zoom.

Ar 3 Rhagfyr croesawyd Rhys ab Owen Thomas, cynrychiolydd Plaid Cymru De Cymru Canolog yn Senedd Cymru. Mae'n un o blant Caerdydd wedi astudio'r Gyfraith yn Rhydychen ac yn aelod o Eglwys y Tabernacl. Cyflwynodd hanes datblygiad y Gymraeg yn y ddinas o'r 12fed ganrif i'r presennol. Esboniodd gyfnodau dirywiad a chynnydd yr iaith dros y canrifoedd. Rhyfeddwyd at ei ymchwil enfawr a'i ddiddordeb yn ei famiaith yn y ddinas.





Ar 17 Rhagfyr, Carwyn Ellis, cerddor o Sir Fôn, nawr o Gaerdydd, sydd wedi arbenigo mewn cerddoriaeth glasurol, *soul, blues* a *rock a roll* wedi graddio. Cafodd gyfle i berffeithio sawl offeryn gyda grwpiau enwog e.e.Oasis, Stereophonics a'r Pretenders. Soniodd am amryw o deithiau diddorol yn Ffrainc, Sbaen, Siapan, De America, Gwlad Pwyl ac eraill. Datblygodd i gyfansoddi caneuon Cymraeg, dan ddylanwad ei fam-gu – a chynnwys ei dywediadau diddorol hi mewn cân o'r enw 'Dere mewn', ac eraill. Cyflwynodd *gigs* yng nghwmni enwogion e.e. Phil Collins. Cydnabu ddylanwad Haf Morris, Amlwch, ei athrawes gerddoriaeth yn ei ieuenctid am ei ddatblygiad fel cerddor – gŵr ifanc â dawn a gyrfa anhygoel.





Ar 7 Ionawr Y Parchg Owain Llŷr Evans oedd y gwestai – gweinidog Eglwys Minny Street ac un sydd â diddordeb a gwybodaeth eang mewn celf o bob math. Cafwyd hanes artist Kathe Kollwitz, a aned yn Rwsia ond a fu'n byw yn yr Almaen dan ormes Hitler yn gynnar yn y 20fed ganrif. Soniodd fod y wraig yn arbenigo mewn cyfrwng siarcol yn cyfleu ar ganfas y gormes a ddioddefodd hi a'i theulu. Canolbwyntiodd ar bedwar llun – ar thema mam a'i phlentyn ac ati, mewn gwahanol ffyrdd dirdynnol gan ei chyffelybu i Mair a'r baban Iesu, eu cariad, a'u llawenydd o wewyr Kathe dan rym y Natsiaid i dristwch Mair - y ddwy wedi colli meibion. Datblygodd ei dawn fel cerflunydd hefyd – un darn wedi ei ddinistrio gan y Natsiaid ond a ail grewyd yn 1981 yn Cologne. Datblygodd ddarlun arbennig o gymeriad Kathe a'i phwyslais ar Heddwch a'i hawydd i greu Cymod yn y byd – neges i bawb ohonom!

Ar 21 Ionawr Mererid Hopwood, ein bardd cenedlaethol, a lanwodd brynhawn diddorol i'r aelodau gan gyflwyno darlith ar y cwestiwn "Beth yw Iaith?" Cyflwynodd esiamplau o ymateb beirdd fel Syr John Morris Jones, T.H.Parry Williams, Gerallt Lloyd Owen ac eraill yn eu barddoniaeth. Canolbwyntiodd ar nifer o gerddi gan Waldo – un a syrthiodd mewn cariad â'r iath Gymraeg yn fachgen saith mlwydd oed yn Mynachlogddu. Pwysleisiodd i Waldo roi llw o ffyddlondeb i'r iaith gan gydnabod, er ei bod yn hen, yn dal yn iaith ifanc i'w thrysori. Gofynnodd am esiamplau o hoff eiriau anarferol yr aelodau. Ategodd fod rhaid cymeryd cyfrifoldeb am y Gymraeg a pharhau mewn gobaith i ymarfer geiriau a allai ddiflannu i ebargofiant. Gwyddai pawb am ddawn a gwybodaeth eang iawn Mererid sy'n fardd enwog yn ein plith fel cenedl ac sydd yn trosglwyddo'i gallu i fyfyrwyr ffodus.

Cyfarfod nesaf: 4 Chwefror am 2 o'r gloch ar Zoom yng nghwmni Peter Griffiths – cyn brifathro ac addysgwr.

# Colofn Hannah



## Hannah Roberts

*Blwyddyn Newydd Dda 2022*
*BETH YW'R DÊT 'EDDI?*

Fel 'na weten ni gatre!! Wel helo a Blwyddyn Newydd Dda.

Ie blwyddyn newydd wedi dechre 'da Mish Ionawr, ond dim ond ers 1752 ma hyn. Cyn 'ny, 'r oedd y flwyddyn Rufeinig, sef y calendar Julian, ar ôl Julius Caesar, yn dechre 'da mish Mawrth, a'r cynta o'r mish hwnnw o'dd y flwyddyn newydd, ac yn cwpla 'da Rhagfyr, sef deg mish. O'dd y petwar mish ola wedi'u henwi yn order eu rhife, 7, 8, 9 a 10 a'u dechre yn ôl y rhife Rhufeinig - SEPTember, OCTober, NOVember DECember, septo-saith, octo-wyth, novo-naw, deco-deg, ac er bod gyta ni nawr ddeuddeg mish yn dechre 'da Ionawr, ac felly'n bwrw'r order rhifol mas yn rhacs, yr un yw enwau y pedwar mish ola 'na ,ac felly ddim yn driw i'w henwau!!!!!!

Darganfuwyd yn 1752 bod y mishoedd ddim yn cydfynd â'r tymhorau, a bod gwylie'r eclws – e.e. Y Pasg mas o le. Dyma'r Pab Gregory yn camu miwn, ac i ddod â phethe i drefen dwgodd e 11 diwrnod glatsh!! - a'r 3ydd o Fedi yn troi'n 14fed dros nos!! Hefyd penderfynwyd bod Chwefror, yr hen fish bach yn ca'l diwrnod egstra bob 4 blynedd h.y. bob blwyddyn sy'n rhanetig â'r rif 4 sef - blwyddyn naid, - wele geni'r calendar Gregoraidd sy 'gyta ni nawr, a'r flwyddyn newydd ar y cyntaf o Ionawr.

Yr haul sy'n rheoli'n mishoedd ni, ond ma'r Tsheneaid a'r Mwslemiaid yn dibynnu ar y lleuad, a'r Iddewon yn gatel i'r haul reoli eu blynyddoedd, a'r lleuad eu mishoedd! Bob blwyddyn naid ma 'da'r Calendar Iddewig 13 mis.

Mae llawer gwlad yn dal i arddel yr hen galendar. Mae Cwm Gwaun yn dal i ddathlu Calan Hen ar 14 Ionawr hefyd ynysoedd yr Alban Rwsia, Serbia, Macedonia ac eraill.

Rhaid gweud yr hanes bach yma. Roeddwn yn dysgu yn Ysgol Melin Gruffydd nôl yn 2000, 'jyst cyn 'Dolig, a'r plant yn neud llyfre Nadolig i gynnwys eu gwaith i gyd, pob pwnc wedi selio ar y thema. Plant yn dwli neud, - o'dd hyn cyn i'r Cwricilwm ddod a rheoli pob amrywieth a difyrrwch!!!!!! Beth bynnag, dyma law croten yn mynd lan, - Esther o'dd ei henw, - gewch chi gliw fanna! Wetws hi na alle hi 'neud Llyfr Nadolig am nad o'n nhw fel Iddewon yn dathlu hwnnw. Reit, gofynnes iddi weud wrtho ni beth o'dd hithe'n dathlu yr ateg ma o'r flwyddyn. *Chanukah* medde hi, Gŵyl y Goleuadau. Sail yr Ŵyl hon yw brwydro'r Iddewon yn erbyn y Syriaid i ennill y deml yn Jeriwsalem yn ôl. Digwyddodd hyn o dan arweiniad Jiwdas Macabaeus, a'r penderfyniad cynta o'dd ail gynneu'r lamp yno a llosgi'r fflam am byth. Fan hyn ddigwyddodd y wyrth. Dim ond digon o olew am un diwrnod o'dd 'da nhw, ond fe losgws y fflam am wyth diwrnod. Ma'r stori yn oratorio Handel - *Judas Maccabëus*, ac yn llyfr yr Apocriffa. Yn ystod gŵyl *Chanukah*, llosgir y *Menorah,* canhwyllbren ac wyth cannwyll. Cynheuir un ar bob nos o wyth niwrnod yr Ŵyl, i gofio am fuddugoliaeth yr Iddewon a glanhau'r deml yn Jeriwsalem.

Nôl nawr i'r dosbarth, ac Esther. Dyma fi 'n rhoi dyddiad ar y bwrdd du sef 10 Rhagfyr, 2000. Llaw lan 'to, yn gweud na alle hi roi'r dyddiad 'na. Ei dyddiad hi o'dd:- *Kislev* 10 fed 5000!!! Kislev yw trytydd mish eu calendar nhw. Dechreua'n hamser ni gyda geni Crist, ryw fynach cynnar o'r enw Dioysius benderfynws yr Anno Domini. Dechreua'r calendar Iddewig gyta creadiceth y byd, sef 3000 cyn hynny, sy'n egluro 'r 5000.

Caf f'atgoffa nawr, o'r cyfnod gyta Chwmni Theatr Cymru ym 1979. Perfformio'r ddrama Esther o'n ni, a geirie Haman, prif weinitog y brenin wrth ddarllen y proclamasiwn, ei gynllun i ddileu'r Iddewon o'r deyrnas - "Ar y trydydd-ar-ddeg o fis Adar" - dyna o'dd diwrnod eu tranc, sef wheched mis Iddewiaeth a'n Mish Chwefror/Mawrth ni, ond daeth Esther i'r adwy, o'dd Haman wedi cynllunio ei dranc ei hun!!

Daw soned S B Jones i'r meddwl:-

"Nid rhyfedd Chwefror bach dy fod mor gas
A ffyrnig dy dymherau'n nhwll y clo,
A'th frodyr mawr i gyd yn byw yn fras
I luosogrwydd dyddiau yn eu tro.
Gwrandawaf dy ddialedd yn y drain,
A gweld dy felltith yn y pistyll dŵr;
A chwarddaf pan fo'th wynt yn hyrddio'r brain
Yn bendramwnwgl rywle i allt Tredŵr.
Pwy roddodd hawl erioed i'r un-ar-ddeg
I'th dreisio di fel hyn a dwyn dy ran?
Ac yna'n dod ac esgus bod yn deg,
Â dydd i ti yn awr ac yn y man!
'Rwyf innau'n un o ddeuddeg, heb ddim bri;
Mae un beth bynnag yn dy ddeall di.

Nôl yn nechre'r 60au, fe ffurfion ni fel myfyrwyr yng Ngholeg Hyfforddi 'Bertŵe, grŵp pop yn y coleg - sef "Y Cwennod", ac ar Ddydd Calan, bob blwyddyn fel y cloc, byddem yn Aduniad yr Urdd ym Mhantyfedwen yn y Borth. Yn 1964, roedd hi'n flwyddyn naid, a Ryan wedi dod yno i'n difyrru ni am y cyfnod. Gosododd her i bawb i sgrifennu cân bop ar y teitl "Blwyddyn Naid" Fe ethon ni'r Cwennod ati, ac yna Ryan yn neud trefniant i'r gân. Erbyn diwedd, o'dd pawb yn ei chanu, a'r gân yn atseinio drwy'r hen blasdy!!! Dyma'r pennill cynta' a'r gytgan.

Blwyddyn Naid wel dyma hi ac mae gobaith i hen ferched fel ni,
rydym wedi hen, alaru ar beidio a chael caru
ond nawr mae gobaith i ni O yeh
a nawr mae gobaith i ni.

*Cytgan*
Blwyddyn Newydd
Blwyddyn Newydd
Mae Blwyddyn Naid yn flwyddyn dda i ni,
Blwyddyn Newydd
Blwyddyn Newydd
Mae Blwyddyn Naid yn flwyddyn dda i ni O yeh
Mae -------------------------------------------
Mae ------------------------------------
Yeh Yeh Yeh.

Wele sôl ffa y gytgan:-
s s l :- f l l s:-m
m r r r r fe fe s l s:-
s s l :- f l l s:-m
s s s s l s f m r d:- :-

A weta i fe 'to - Blwyddyn Newydd. dda.

# Bwytai Merch y Ddinas

*"Dechrau Da ! "*



**Lowri Haf Cooke**

Croeso cynnes i flwyddyn newydd o hel clecs byd bwyd a diod Caerdydd! Fel y gwyr y rhai ohonoch sy'n ddarllenwyr selog, datgelir llawer am gymdeithas trwy sgwennu am fwyd. Bydd hi'n ddwy flynedd fis nesaf ers i'r pandemig ddechrau, a dwi'n credu y gallwn ni gyd gytuno y bu'n harferion bwyta a diota yn ganolog i'n bywydau bob dydd. Bu cau bwytai a chaffis a thafarndai am gyfnodau sylweddol hefyd yn ergyd i nifer fawr. Nid yn unig i'r perchnogion, ond hefyd i gwsmeriaid ffyddlon – ac i rai busnesau, profodd heriau'r cyfnod yn ormod o lawer.



Un o'r llefydd oedd yn hafan i mi oedd Wright's Wines yn Arcêd y Castell – cangen ddinesig Danteithion Bwyd Wrights yn Llanarthne, Sir Gaerfyrddin. Siop goffi a bar bach cyfrin, a leolwyd uwch cleber y dre. Roedd na wastad groeso yno, a hynny yn yr iaith Gymraeg, gan y rheolwr hawddgar a gwybodus Tom Bull o Sir Gâr. Dwi'n cofio sgwrsio ag e ddiwrnodau'n unig cyn y clo mawr cyntaf, wrth i ni geisio dyfalu beth fyddai'n tynged ni gyd. Er mawr ryddhad i mi, ail-agorodd y lleoliad dan gyfenw Tom ei hun, ar y cyd â Will, o siop goffi Mec gerllaw. Ond fyth ers astudio Daearyddiaeth yn Ysgol Glantaf, roeddwn i'n ymwybodol mai landlordiaid o bell oedd yn berchen ar yr arceds Fictorianaidd, ond heb iot o ddiddordeb mewn annog diwylliant anibynnol 'trysorau'r ddinas'. Wnes i ddim synnu felly pan gaewyd Bulles Wines ym mis Rhagfyr, ond ro'n i wrth fy modd â chynlluniau Tom a Will i ail-leoli'r busnes ar Heol y Crwys. Gofod tipyn mwy mewn ardal fyrlymus, a thelerau llawer mwy ffafriol; be well? Ges i goffi latte ffantastig yno'n ddiweddar, clonc, a bara banana a siocled – bydda i nôl fin nos yn fuan am lasied o win a thamaid i fwyta.

Dim ond un enghraifft yn unig yw hynny o'r newid a fu yng nghynllun sawl busnes dinesig. Yn wir, es i am reid ar fy meic o Gaffi Mec ar Heol y Crwys i Heol yr Eglwys Newydd, gan sylweddoli cymaint o fusnesau 'newydd' sy' wedi sefydlu yno am resymau tebyg. Fues i'n ffodus i gael bwrdd wrth y drws yn Brother Thai yn ddiweddar, cymaint yw'r galw gan gwsmeriaid am nŵdls a roti. Dafliad carreg i ffwrdd, roedd brecwast Shakshuka bwyty Twrcaidd Longa Lounge gystal â'r broliant a fu amdano ers misoedd. A gyferbyn â Longa, ces i fanna o'r nefoedd, dros ginio ym mecws gogoneddus Alex Gooch, sy'n wreiddiol o'r Gelli Gandryll. Dwi ddim yn credu i mi erioed wario cymaint ar 'fara a chawl' yn fy myw, ond mam bach, roedd jyst y peth ganol gaeaf. Cawl cennin, tsili a thatws melys, a bara *focaccia* blas garlleg – a 'bostock' frangipani a chyrains coch i bwdin. Bendigedig.

Cyn i chi ffieiddio at y fath oferedd, ni chawsom wledda fel hyn am fisoedd lawer y llynedd, a bois bach mae angen pob cefnogaeth ar bob busnes! Ges i noson ddifyr iawn hefyd ar Heol yr Eglwys ganol mis Ionawr, yn Bacareto, sy'n cynnig blas bach o ddinas Fenis. Cymro Cymraeg yw Ellis Walker, ein gweinydd gwych, sydd hefyd yn chwarae'r gitar bâs gyda band Mellt. Roedd 'Cysgodion Cyfarwydd' yn un o'r anthemau hynny i'm sbarduno i ddawnsio'n wyllt yn y gegin tra'n pobi a golchi'r llestri yn ystod y cyfnodau clo mwyaf heriol. Byddai mond yn deg felly i mi'ch annog i heidio am Bacareto, cyn i Ellis fynd yn llawer rhy enwog i weini Cichetti a Campari Spritz!

Aethom ymlaen i westy newydd sbon danlli y Park Gate wedi hynny. Mwy am hynny – a lansiad bar wystrys a siampaen yr Heathcock – fis nesaf. Tan hynny, yfwch, bwytewch a byddwch lawen. A sgwrsiwch a chlustfeiniwch, a dechreuwch pob sgwrs yn Gymraeg. Mae'r ddinas yn ail-ddeffro wedi cyfnod digon heriol. Ymlaen! A blwyddyn newydd dda x

Mec Coffee / Bulles Wines, 130 Heol y Crwys CF24 4NR
Alex Gooch, 45 Heol yr Eglwys Newydd CF14 3JP
Longa Lounge, 180 Heol yr Eglwys Newydd CF14 3NB
Bacareto, 13 Heol Eglwys San Ioan CF10 1BG
*Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer) £9.99

Lluniau (o'r top i'r gwaelod)
Cawl a Bara - Alex Gooch
Shakshuka Longa Lounge
Coffi Mec / Bulles Wines

# Côr Meibion Taf yn edrych mla'n

Wel ma 2022 wedi dechrau. O'r diwedd medd rhai, fe aeth 2020 a 2021, teg wynt ar eu hôl nhw medde fi, a diolch i'r drefn medd eraill, ond camu mla'n yn dalog i'r dyfodol medd Côr Meibion Taf. Y syniad oedd ail ddechrau yn y flwyddyn newydd ond oherwydd cyfyngderau Omicron bu rhaid aros tan ddiwedd y mis a pheidio â theithio i Loegr er mwyn ymarfer yn ddi-fygydaidd fel y gwnaeth un côr nid anenwog.

Mae CMT wedi cael cyfnod prysur er y cyfyngderau. Rŷn ni nawr wedi ymgartrefu yng Nghlwb Rygbi Llandaf ac yn cwrdd yno bob nos Sul am 7.30. Diolch i Matthew a Joan am eu croeso gwresog a'u twymgarwch ac wrth gwrs mae llymeityn bach a chwmni cyfeillion hoff cytûn ar ddiwedd ymarfer yn falm i bob enaid!

Bu'r misoedd cyn y Nadolig yn eithaf prysur. I ddiolch i Glwb Rygbi Pentyrch am gael defnyddio'i adeilad i ymarfer ym misoedd Hydref a Thachwedd noddwyd y gêm rhwng Pentyrch a Chlwb Rygbi Cymru Caerdydd gan CMT. I bwysleisio'n diolch fe ganon ni yno hefyd a rhannu bwffe bendigedig. Syndod faint o fechgyn y côr oedd yno, ambell un wedi teithio'r holl ffordd o Geredigion i ymuno yn yr hwyl!

Ar ddechrau mis Hydref roedd CMT yn canu ar achlysur hapus priodas Steff Jones, ein harweinydd, ag Elin yng Nghapel Tonyfelin, Caerffili. Cymerodd Iwan Guy, ein his-arweinydd yr awenau. Roedd canu yn oriel y capel yn dipyn o her gan fod pwysau covid yn gorfodi gagendor rhwng pob unigolyn, a nifer y bechgyn yn llai na'r disgwyl oherwydd anghenion ynysu. Ond fe lwyddon ni, a diolch i Lowri Guy am ei chyfeilio diffael, fel arfer, i'n cynnal yn ein hymdrechion. Mi aeth y dathlu yn y nos ymlaen tan yn hwyr gyda phawb wedi gorfwyta, a gorganu i biano Ieu Jones. Crawcian clacwyddod oedd yr ymarfer ar y nos Sul.



***CMT ym mhriodas Steff ac Elin***

Hefyd buon ni'n canu yn nathliad penblwydd 40fed Barry Beavers. Pwy? Wel, cymdeithas yw Barry Beavers sy'n dysgu plant a phobl ifanc sydd dan anfantais i nofio. Mae rhyw 60 o aelodau yn cwrdd bob pnawn Sadwrn yng Nghanolfan Hamdden y Barri i ddysgu nofio dan ofal hyfforddwyr gwirfoddol ymroddgar. Y siaradwraig wadd oedd Dame Tanni Grey. Ys gwn i faint o ddarllenwyr y *Dinesydd* sy'n cofio ei mam yn gyson mynychu oedfaon Heol y Crwys? Roedd Tanni yn siarad yn garedig iawn am y cyfnod yna o'i hieuenctid.

Er i ambell weithgaredd Nadoligaidd gael ei ddiddymu oherwydd covid fe gawson ni ein noson o ganu carolau yng Nghlwb Rygbi Llandaf gyda'r lle yn gyfforddus lawn, a mawr oedd pleser y bois o gael eu diddanu gan ganu Casia, croten Elin a Steff. Nid hawdd canu gerbron criw o fechgyn ma's yn joio!

Ond yn y gorffennol oedd y rhain, mla'n bo'r nod. Yn barod mae ambell i alwad wedi dod i mewn, canu cyn gêm yr Alban yng Ngwesty Jurys a chyn gêm yr Eidal yng Ngwesty'r Marriott, efallai cyngherddau ar y cyd noswyl y gêmau rhyngwladol, ambell i daith dramor ac yn bendant yn 2023. Y broblem, fel gyda phob gweithgaredd corawl fydd covid. Mae'n anodd trefnu ond rhaid bwrw ati mewn gobaith a dyna'r a wnawn. Yn barod mae syniad 'da ni o'r hyn byddwn ni'n ei ganu yn Nhregaron (yr Eisteddfod Genedlaethol go iawn, gobeithio). Byddwn ni'n ystyried ein cyfraniad ar *YouTube* ar ôl ein profiad yn y byd o ganu ar zoom yn ystod covid. Diolch hefyd i'r technegwyr i gyd am eu gwaith o wella fy llais i er nid fy ngwep! Bu sôn yn y pwyllgor am greu *fflash gôr* arall ac ehangu'r *repertoire*. Mae'r brwdfrydedd yn codi unwaith eto gan ein bod yn gweld y trwmgwsg gorfodol yn ysgafnhau.

Mae Côr Meibion Taf, fel y nodais yn gynt, wedi ymgartrefu yng Nghlwb Rygbi Llandaf erbyn hyn. Mae digon o le i barcio yno ac mae'r croeso'n wresog. Cynhelir ein hymarfer yno ar nos Sul, yn dechrau am 7.30 y.h. ac yn gorffen ar benderfyniad ein harweinydd Steffan Jones. Mae croeso pen agored i unrhyw aelod newydd boed yn denor neu'n faritôn. Gyda nifer ohonon ni, dyw e ddim yn gwneud llawer o wahaniaeth, fel dysgais i ar zoom! Felly, i roi pen ar y llith ry'n ni'n edrych mla'n at flwyddyn weithgar gyda brwydfrydedd gan estyn croeso i unrhyw aelod hen a newydd i ymuno â ni i ganu ein ffordd trwy 2022.

Am fwy o fanylion cysylltwch â:
Rhodri Jones 07770559961 Colin Williams 07768900738
www.cormeibiontaf.cymru gweplyfr Côr Meibion Taf

---

# Difyrion Digidol

Ydych chi'n gweld technoleg yn rhwystr? Ni ddylai hynny orfod bod. Nid oes raid i chi wirioni efo technoleg. Mae technoleg ar gael i wneud bywyd yn haws mewn sawl ffordd. Mae pawb dwi'n siwr wedi hen arfer defnyddio rhaglen prosesydd geiriau fel Word ond dwi am sôn am rywbeth sydd o bosib am wneud eich bywyd yn llawer haws. Ers blynyddoedd, dwi wedi bod yn cynghori pobl i ddefnyddio naill ai Google Workplace neu wasanaethau Microsoft Outlook ar-lein. Mae'n rhaid imi ddweud fod Google Workplace ac Outlook yn gallu bod yn ddefnyddiol dros ben.

Ewch amdani i arbrofi, archwilio, creu, cydweithio. Mae'r gwasanaethau hyn yn bendant yn gwneud bywyd yn haws imi, a dwi'n siwr y bydd yn ddefnyddiol i chithau hefyd. Triwch nhw!

Cofiwch gysylltu os hoffech sgwrs am hyfforddiant ac i drafod yr hyn y medrwn ei gynnig, cysylltwch gyda mi ar deian.apRhisiart@wales.coop

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Caethwasiaeth Jamaica, Bedyddwyr Hengoed a Solomon Nutry** (Rhan 2)

Soniwyd y tro diwethaf am y ffordd y dechreuodd y fasnach mewn caethion du o ddifrif yn hanes Prydain gyda datblygu'r diwydiant siwgr yn ynysoedd y Caribî, yn enwedig ar ôl i Jamaica ddod i feddiant Prydain yn yr 17eg ganrif, a chrybwyllwyd lle amlwg teulu Morganiaid Llanrhymni ym mywyd Jamaica yn y cyfnod cynnar hwnnw.

Soniwyd hefyd am yr ymgyrchu yn erbyn y gaethfasnach a ddechreuodd fagu nerth ym Mhrydain erbyn y 1780au, ac a arweiniodd at ddiddymu'r fasnach mewn caethion gan Senedd Prydain yn 1807; a chrybwyllwyd yn arbennig rôl danllyd, arloesol y gweinidog Bedyddiedig o'r Hengoed, Morgan John Rhys (1860–1804), yn yr ymgyrchu hwnnw yn y cyd-destun Cymreig.

Un arall o Forgannwg a gododd ei lais yn angerddol yn erbyn y gaethfasnach, wrth gwrs, oedd Iolo Morganwg (1747–1826), ac mae hynny'n tanlinellu pa mor gymhleth y gallai pethau fod o fewn yr un teulu, hyd yn oed, oherwydd (fel y nodais yn y golofn hon yn rhifyn Gorffennaf 2020) roedd tri brawd Iolo yn byw yn Jamaica ac yn cadw caethweision yno.

Dileu'r fasnach mewn caethion a wnaeth Senedd Prydain yn 1807, ond roedd yn parhau yn gyfreithlon i gadw caethion yn Jamaica a thiriogaethau tramor eraill Prydain. Yn wir, roedd yn ganol y 1830au cyn i'r Senedd yn San Steffan ddileu caethwasiaeth ynddynt, yn dilyn cyfnod o ymgyrchu taer a ddechreuodd o ddifrif tua 1823.

Roedd cenhadaeth gan y Bedyddwyr yn Jamaica, a daeth cannoedd lawer o'r caethion yno yn Gristnogion trwy waith y genhadaeth honno yn ystod y 1820au. Casâi'r cenhadon gaethwasiaeth â chas perffaith, ond pwyswyd yn drwm arnynt gan y Gymdeithas Genhadol ym Mhrydain i beidio ag ymyrryd yn gyhoeddus â'r drefn wladol a gwleidyddol ar yr ynys ac i annog y caethweision i fyw yn ufudd a heddychlon. Er i'r cenhadon gydymffurfio, dangosent yn eu hymddygiad cyffredinol eu cydymdeimlad dwfn tuag at y boblogaeth ddu, gan geisio eu gorau i hyrwyddo eu lles a'u haddysg, a bu hynny'n achos cryn dyndra rhyngddynt a'r caethfeistri.

Daeth pethau i'r pen adeg y Nadolig 1831. Cododd nifer sylweddol o gaethion Jamaica mewn gwrthryfel yr adeg honno. Fe'u cosbwyd mewn ffordd hynod gïaidd, a lladd cannoedd ohonynt. Cyhuddwyd y cenhadon hwythau o annog gwrthryfel, a'u herlid o'r herwydd, gan garcharu rhai ohonynt a dinistrio nifer o'u capeli. A'r canlyniad fu i'r cenhadon yn awr ddechrau codi eu llais yn ffyrnig o blaid rhyddhau'r caethion.

William Knibb (1803–45) oedd un o'r rhai mwyaf croch ei lais yn erbyn caethwasiaeth o blith y cenhadon. Brodor o Kettering yn swydd Northampton ydoedd, ond symudodd yn 1816 i weithio mewn swyddfa argraffu ym Mryste. Yno, daeth yn aelod yn eglwys Fedyddiedig Broadmead, lle roedd Dr John Ryland (1753–1825) yn weinidog a hefyd yn brifathro Athrofa'r Bedyddwyr yn y ddinas (lle y bu Morgan John Rhys yn fyfyriwr o dan ragflaenydd Ryland, Dr Caleb Evans).

Roedd John Ryland yn gryf yn erbyn caethwasiaeth ac yn frwd ei gefnogaeth i genhadaeth y Bedyddwyr yn Jamaica, a'r diwedd fu i William Knibb hwylio am y maes cenhadol yn Jamaica ym mis Tachwedd 1824, a hynny yng nghwmni ei wraig newydd, Mary Watkins (1798–1866). Roedd Mary yn aelod yn yr un eglwys Fedyddiedig ym Mryste â William, ac yng nghapel Broadmead y priodwyd y ddau ar 5 Hydref 1824, ond un o Bont-y-pŵl oedd Mary yn wreiddiol, ac yn siarad Cymraeg.

Fel mae'n digwydd, roedd gan wraig James Coultart (1786–1836), un o gyfeillion agos William Knibb ymhlith cenhadon Jamaica, gysylltiadau Cymreig hefyd. Abigail Charlotte Green oedd ei henw, ac er iddi gael ei geni yn Southampton yn 1797, roedd yn wyres i Lewis Williams, Anghydffurfiwr amlwg o blwyf Gwenddwr i'r gogledd-ddwyrain o Aberhonddu, a fu'n Uchel Siryf Brycheiniog yn 1781; ac wedi iddi golli ei gŵr, ailbriododd yn 1839 â Henry Williams, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Aberhonddu.

Dychwelodd William a Mary Knibb i Brydain yn haf 1832 i fod yn llais dros y cenhadon ac yn erbyn caethwasiaeth. Buont yn ymgyrchu'n daer ac yn ddiflewyn-ar-dafod. Gallwn ymdeimlo ag angerdd eu hymgyrchu yn yr araith rymus a draddododd William Knibb mewn cyfarfod cyhoeddus yn Exeter Hall yn Llundain yn Awst 1832 o blaid ei frodyr a'i chwiorydd 'Affricanaidd' gorthrymedig – araith a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan y Methodist Calfinaidd ifanc o Ddyffryn Conwy, John Evans ('I. D. Ffraid'; 1814–75), a'i chyhoeddi mewn llyfryn yn Llanrwst yn 1833.

Teithiai William Knibb yn helaeth, gan areithio mewn cyfarfodydd ar hyd a lled y wlad. Bu hefyd yn rhoi tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd; ac fe ddywedir i ymgyrchu diflino William a Mary Knibb fod yn gyfraniad allweddol tuag at gael Senedd Prydain i basio deddf yn Awst 1833 a fyddai'n dileu caethwasiaeth yn Jamaica a'r rhan fwyaf o diriogaethau tramor Prydain y flwyddyn ganlynol. Ac er mai William Knibb oedd 'wyneb cyhoeddus' yr ymgyrchu, fel y dywed y cylchgrawn *Bye-Gones* yn 1895: 'It was freely known that [his wife] was the great secret of Knibb's successes.'

*(i'w barhau)*

## Llongyfarchiadau i Geraint Hampson-Jones



Llongyfarchiadau i Geraint Hampson-Jones ar gael ei benodi yn bennaeth swyddfa newydd i Gaerdydd gan gwmni rheoli cyfoeth, Brewin Dolphin. Dechreuodd Geraint ar ei waith ar y cyntaf o Ionawr 2022.

Ymunodd Geraint, sy'n siaradwr Cymraeg, â Brewin Dolphin yn 2009 fel rheolwr buddsoddi o'r broceriaid stoc WH Ireland. Gall Geraint gynnig ei wasanaeth yn gyfangwbl yn y Gymraeg. Yn ystod ei gyfnod yn gweithio i'r cwmni dros y deuddeng mlynedd diwethaf mae wedi datblygu'n uwch-reolwr buddsoddi â chyfrifoldeb am bortffolios cleientiaid unigol a chorfforiaethol. Erbyn hyn mae e wedi ei ddyrchafu i rôl pennaeth swyddfa. Mae hefyd wedi gwneud cyfraniad mawr i'r uwch dîm rheoli wrth ddatblygu strategaeth twf swyddfa Caerdydd.

Meddai Geraint Hampson-Jones, darpar Bennaeth Swyddfa Caerdydd Brewin Dolphin: *"Rwy'n falch iawn o ymgymryd â rôl pennaeth swyddfa gan David (Myrddin-Evans), sydd wedi gwneud gwaith gwych. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio'n agos â'r tîm ymrwymedig yng Nghaerdydd er mwyn cefnogi ein cleientiaid â'u hanghenion ariannol.*

## Y DIGWYDDIADUR

### Chwefror

**Gwener, 11 Chwefror**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan y Prifardd Glenys M. Roberts ar y testun 'Myrdd o ryfeddodau – rhai hoff gerddi'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Trefnir y cyfarfod gan gapel y Tabernacl, Efailisaf. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Gwener, 18 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Holi Lleucu Roberts, enillydd 'y dwbl dwbl rhyddiaith', am ei chyfrolau arobryn yn Eisteddfod AmGen 2021. Am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach a'r ddolen Zoom, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Llun, 21 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan y Prifardd Cyril Jones ar y testun 'Llefydd a'u Lleisiau', yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Oherwydd y cyfyngiadau ar y niferoedd, gofynnir yn garedig i bawb sy'n dymuno dod i gadarnhau hynny ymlaen llaw drwy gysylltu naill ai â'r Cadeirydd, Shirley Williams (shirleywilliams642@gmail.com; 029 -2061-5243) neu'r Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

### Mawrth

**Mercher, 2 Mawrth**
Merched y Wawr, Bro Radur. Sgwrs gan Emma Berry, sy'n wirfoddolwr ar brosiect gydag Achub y Plant, am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545) neu Shirley Williams (shirleywilliams642@gmail.com; 029 -2061-5243).

**Gwener, 4 Mawrth**
'Dydd Gweddi'r Byd': Cylch Caerdydd. Cynhelir y gwasanaeth am 2.00pm yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais. Mae croeso i bawb.

**Iau, 10 Mawrth**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan yr Athro Gerwyn Wiliams ar y testun 'Delweddau o Cynan'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Trefnir y cyfarfod gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Gwener, 11 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Dr Gwenllian Lansdown Davies ar y testun 'Cylch o Hanner Canrif: Meithrin Miliwn'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com).

**Sadwrn, 12 Mawrth, a Llun, 14 Mawrth–Sadwrn, 19 Mawrth**
Bydd Theatr Genedlaethol Cymru, National Theatre Wales ac August 012 yn cyflwyno perfformiad o *Petula*, addasiad amlieithog Daf James o ddrama Fabrice Melquiot, *Wanted Petula*, yn Theatr Sherman am 7.30pm: https://www.petula.cymru/

**Gwener, 18 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Siwan Rosser ar y testun 'Darllen y Dychymyg', sef teitl ei chyfrol ddiweddar ar lenyddiaeth Gymraeg i blant a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn 2021. Am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach a'r ddolen Zoom, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Mercher, 30 Mawrth–Sul, 10 Ebrill
'Anthem': comedi gerddorol Gymraeg newydd gan Llinos Mai yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2022/anthem

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James. Manylion cysylltu ar dud. 2**

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Rhai materion ariannol i'w hystyried ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd:

a) A oes gennych ewyllys glir, gyfredol? Gall Huw ddrafftio eich ewyllys a gwirio eich sefyllfa dreth etifeddiaeth. Bydd Huw wedyn yn gweithio gyda chyfreithiwr dwyieithog lleol a fydd yn cwblhau'r gwaith trwy Zoom heb fod angen i chi ymweld â swyddfa unrhyw gyfreithiwr.

b) Os oes angen trefnu Atwrneiaeth (*'Power of Attorney'*) arnoch chi'ch hun neu i berthynas oedrannus, cysylltwch â Huw.

c) Ystyriwch osod eich morgais am dymor penodol gan fod nifer yn rhagweld cynnydd mewn cyfraddau llog eleni.

ch) Mae rheolau yswiriant newydd yn golygu na ddylai prisiau adnewyddu fod yn uwch na phrisiau ar gyfer cwsmeriaid newydd. Gwiriwch fod eich dyfynbris adnewyddu yn rhesymol trwy ddefnyddio gwefannau cymharu prisiau.

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio nifer o grantiau trwy'r Cronfa Cadernid Economaidd. Mae cymorth ar gael i fusnesau sy'n talu ardrethi busnes (symiau amrywiol ar gael), i weithwyr llawrydd (£500 ar gael) ac i fusnesau sy'n cyflogi pobl ond nad ydynt yn talu ardrethi busnes (£2,000 ar gael). Ceir y manylion yn llawn yma:
https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/gwiriwr-cymhwysedd-cymorth-busnes-cronfa-cadernid-economaidd-covid-19-rhagfyr-2021-chwefror-2022

3. Yn ddiweddar, derbyniodd unigolyn, sydd ddim yn llenwi ffurflenni treth, 3 asesiad treth gan y Swyddfa Dreth, yn dangos symiau sylweddol o dreth heb eu talu o rai blynyddoedd yn ôl. Mae dyletswydd ar y Swyddfa Dreth i gyhoeddi asesiadau o fewn cyfnod o amser rhesymol. Os yw'r Swyddfa Dreth yn araf yn prosesu gwybodaeth, mae'n bosibl cyflwyno apêl o dan 'Consesiwn Statudol Ychwanegol A19'. Os ydych chi neu berthynas oedrannus yn derbyn galwadau annisgwyl wrth y Swyddfa Dreth, cysylltwch â ni i drefnu apêl.

**Cwestiynau Huw ac Aled:** *Dw i wedi darllen ar-lein bod llawer o enwogion wedi lleihau eu treth etifeddiaeth trwy ddefnyddio amryw o gynlluniau. Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am y gwahanol opsiynau sydd ar gael?*

Yn ein cyfres newydd ar strategaethau cynllunio treth etifeddiaeth a fabwysiadwyd gan bobl adnabyddus, rydym yn dechrau gyda'r cyn wleidydd Llafur, Tony Benn. Gwnaeth ei deulu arwyddo 'Gweithred Amrywio' (neu *'Deed of Variation'*) i newid telerau ei ewyllys ar ôl iddo farw. Gall y broses hon fod yn ddefnyddiol os yw'r unigolyn gwreiddiol sydd am etifeddu'r ystâd yn penderfynu trosglwyddo canran o'u hetifeddiaeth i'r genhedlaeth nesaf neu i roi eu hetifeddiaeth i elusen. Mae ystâd yr unigolyn hwn wedyn yn is, gan leihau treth etifeddiaeth yn y dyfodol.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun 17 Ionawr, 2022 siaradodd Rhys Morris, un o ysgrifenyddion y Gymdeithas, sydd hefyd yn gweithio i Brifysgol Bryste, ar Sbienddrych Ofod James Webb a aeth i'r gofod ar fore dydd Nadolig llynedd. Yn gyntaf, pwy oedd James Webb? Fe oedd prif weinyddwr NASA yn y cyfnod 1961-68 oedd yn cynnwys y ddamwain erchyll lle collodd tri gofodwr eu bywydau mewn tân wrth lansio Apollo 1 ym 1967. Webb arweiniodd yr ymchwiliad mewn dull agored gan dderbyn llawer o'r bai.

Dechreuwyd cynllunio'r telesgop tua 1990 cyn i'w ragflaenydd, sbienddrych ofod Hubble gael ei lansio. Erbyn cyhoeddi'r erthygl hon, bydd y telesgop wedi cyrraedd ei gartref yn y gofod sef pwynt tua miliwn o filltiroedd ymhellach o'r Haul na'r ddaear. Mae'r sbienddrych yn edrych ar olau is-goch, sef gwres, ac mae cael safle pell o'r ddaear a'i gwres hi yn fanteisiol. Bydd gorchudd Haul y JWST yn agor i faint cwrt tennis ac yn cysgodi'r drych sydd 6.5 metr ar draws a'r offer sensitif rhag cael eu dallu gan yr Haul. Bydd y camerâu a'r offer dadansoddi golau yn canolbwyntio ar donfeddi is goch agos ac is-goch canolig, pelydrau sydd ddim fel arfer yn treiddio trwy atmosffer y Ddaear.

Unwaith bydd y telesgop yn ei le bydd yr offer yn cael ei brofi yn llawn, proses fydd yn cymryd ychydig fisoedd. Yna bydd disgwyl i'r telesgop edrych yn ôl i ddechreuad y bydysawd yn fuan ar ôl y Glec Fawr. Gobeithiwn hefyd weld y galaethau cyntaf yn cael eu ffurfio. Bydd y JWST hefyd yn astudio genedigaeth sêr gan fod golau is-goch yn treiddio trwy'r llwch sy'n cuddio'r broses yma oddi wrthon ar hyn o bryd. Hefyd, gobeithiwn ddysgu mwy am blanedau system yr Haul yn ogystal â bydoedd sy'n troi o amgylch sêr eraill. Gallwn ond dyfalu ar hyn o bryd pa ddarganfyddiadau y bydd y teclyn hynod yma yn ei wneud dros y 10 mlynedd nesaf!

*Rhys Morris*

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

***Croeso mawr i'n colofnydd chwaraeon newydd sef Hywel Owen. Dros y misoedd nesaf bydd yn adrodd straeon diddorol i ni o wahanol gampau.***

## Her i Gymru yn y Chwe Gwlad

Pan fyddwch yn darllen yr erthygl hon, bydd ymgyrch Cymru i amddiffyn Pencampwriaeth y Chwe Gwlad wedi dechrau.

Er mai siomedig ar y cyfan fu Cymru yn ystod gêmau'r hydref, gorffennwyd ar nodyn gobeithiol wrth guro Awstralia yn yr eiliadau olaf gyda chic gosb gan faswr Rygbi Caerdydd, Rhys Priestland. Bu'r misoedd canlynol yn rhai anodd iawn i rygbi Cymru. Yn wir, yn sgîl anawsterau Covid prin iawn fu'r cyfleodd i nifer chwarae o gwbl. Yn anffodus, cyrhaeddodd timau Rygbi Caerdydd a'r Sgarlets yn Ne'r Affrig yr un pryd â'r amrywiolyn Omicron. Gorfodwyd y ddau dîm i hunan-ynysu am gyfnodau hir naill ai yn Ne'r Affrig, Belfast neu Llundain. Arweiniodd hynny at Rygbi Caerdydd yn gorfod chwarae yn erbyn timau cryf Toulouse ac Harlequins gyda chymysgedd o chwaraewyr rhyngwladol a oedd heb deithio i Dde'r Affrig a nifer o chwaraewyr ifainc di-brofiad. Er colli'r ddwy gêm, rhaid canmol ymdrechion y chwaraewyr yn enwedig y rhai ifainc gan gynnwys Theo Cabango a sgoriodd gais rhyfeddol yn erbyn yr Harlequins. Ni fyddai'n syndod o gwbl gweld Theo yn dilyn ei frawd Ben ac yn cynrychioli Cymru yn ystod y blynyddoedd nesaf ar y lefel rhyngwladol. Yr oedd perfformiadau y chwaraewyr ifainc yn cynnig gobaith gwirioneddol i gefnogwyr Caerdydd ar gyfer y dyfodol.

Gobaith arall i gefnogwyr Caerdydd yw fod nifer o chwaraewyr rhyngwladol disglair wedi arwyddo ar gyfer y tymor nesaf gan gynnwys Taulupe Faletau, Thomas Young a Liam Williams. Nid oedd cefnogwyr y Sgarlets yn hapus o gwbl fod Liam Williams wedi penderfynu ymuno â Chaerdydd! Prif gwyn cefnogwyr y Sgarlets oedd mai pedair gêm yn unig y chwaraeodd Liam Williams i'r Sgarlets mewn dwy flynedd ers ymuno o'r Sariseniaid yn Llundain. Yn ystod yr un cyfod, chwaraeodd 14 gêm i Gymru a phump i'r Llewod. Rhaid cofio ei fod wedi dioddef anafiadau difrifol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae'r ystadegau hynny yn tanlinellu'r heriau sy'n wynebu ein timau rhanbarthol.

Taflodd Covid gysgod pellach ar gêmau cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd wrth i'r mwyafrif gael eu gohirio. Wrth i gystadleuaeth Ewropeaidd ail-ddechrau yn ystod Ionawr, gwelwyd timau Cymru yn colli pob gêm y llwyddwyd i'w chwarae. Gwelwyd nifer o arbenigwyr yn cwestiynu gallu rhanbarthau Cymru i gystadlu gyda thimau Lloegr, Ffrainc ac Iwerddon wrth ystyried y gwahaniaeth mawr yn yr arian sy'n cael eu fuddsoddi yn y timau. Yn wir, yr oedd rhai yn trafod dyfodol y rhanbarthau presennol ac yn awgrymu a ddylid cael tri neu hyd yn oed ddwy ranbarth yn y dyfodol. Yn ddi-os yr oedd llwyddiant y tîm cenedlaethol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cuddio rhai o'r problemau sy'n wynebu ein rhanbarthau.

Teg fyddai dweud mai lleiafrif sydd yn disgwyl gweld Cymru yn adennill Pencampwriaeth y Chwe Gwlad eleni. Cyfeiriais eisoes at y cyfnodau anodd a wynebodd y rhanbarthau yn ystod y misoedd diwethaf. Mae hefyd restr hir iawn o anafiadau i chwaraewyr allweddol a phrofiadol gan gynnwys Alun Wyn Jones, Ken Owens, Justin Tipuric, Josh Navidi, Dan Lydiate, George North a Leigh Halfpenny – y chwaraewyr hyn wedi ennill dros 700 o gapiau!

Ond ni ddylid digalonni. Dylid cofio bod Cymru wedi ennill y Bencampwriaeth bum gwaith ers 2005. Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cymru wedi llwyddo i danio ar y llwyfan rhyngwladol er gwaethaf anawsterau ar lefel ranbarthol. Bydd nifer o ddarllenwyr *Y Dinesydd* mae'n siŵr wedi gwylio'r dair rhaglen *Slammed* ddechrau'r flwyddyn yn dilyn hynt a helynt y tîm rhyngwladol dros y blynyddoedd diwethaf. Er y cyfnodau tywyll iawn cafwyd llwyddiant yn aml pan nad oedd disgwyl hynny. Gallai rhoi'r gapteniaeth i Dan Bigger fod yn benderfyniad ysbrydoledig ac ni ddylid gwadu fod gan Gymru chwaraewyr cyffrous iawn gan gynnwys y gwibiwr o Gaerdydd, Louis Rees-Zammit.

Felly, gobeithio y bydd Cymru yn sicrhau o leiaf ambell i fuddugoliaeth eleni a rhaid breuddwydio am Gamp Lawn arall ond rhaid cydnabod y byddai hynny yn syndod!



# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Noel Gibbard**

Tristwch mawr i ni fel eglwys oedd marwolaeth y Parchg Ddr Noel Gibbard yn 89 oed, ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Noel oedd un o sylfaenwyr yr achos yn 1979 gan ymgymryd â llawer o waith y weinidogaeth yn yr eglwys yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Un o Gwm Gwendraeth ydoedd a'i fro enedigol yn bwysig iawn iddo. Aeth i Goleg y Brifysgol ym Mangor a Choleg Bala-Bangor yn y 50au ac a bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn Nowlais ac yna ym Mynea, Llanelli, cyn mynd yn ddarlithydd coleg diwinyddol, yn y Barri i ddechrau ac yna ym Mryntirion, Pen-y- bont ar Ogwr.

Roedd yn awdur toreithiog gan gyhoeddi tuag ugain o lyfrau i gyd a daeth yn un o'n prif arbenigwyr ar hanes Cristnogaeth yng Nghymru o'r Diwygiad Protestannaidd ymlaen. Roedd yn fardd ac yn emynydd a chyhoeddwyd cyfrol o'i emynau, *Molwch yr Arglwydd* ychydig fisoedd cyn ei farw. Tystia'r emynau hyn i'r ffordd yr oedd yr Arglwydd Iesu Grist yn gwbl ganolog i fywyd a gwaith Noel. Roedd ei bwyslais ar yr angen i gredu â'r galon yn ogystal â'r pen; am ddod i berthynas bersonol fywiol â Iesu Grist a'i dderbyn yn Arglwydd ac yn Achubwr.

Cydymdeimlwn yn fawr gyda'i briod Helen; y plant, Alun, Menna a Nia; a'r teulu oll yn eu colled a gweddïwn y bydd gobaith yr Efengyl yn gysur mawr iddynt yn y dyddiau hyn.

**Llawdriniaeth**

Dymunwn yn dda i Janet Evans yn dilyn ei llawdiniaeth ar gyfer penglin newydd. Cofiwn amdani wrth iddi wella a chryfhau ac edrychwn ymlaen at ei gweld yn ôl gyda ni yn yr eglwys.

**Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol**

Mae'r sesiwn Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol a dan arweiniad Wyn James wedi ailddechrau ar ôl seibiant dros y Nadolig. Mae croeso mawr i ymuno â'r sesiynau poblogaidd yma drwy gysylltu'n uniongyrchol â Wyn:
Jamesew@caerdydd.ac.uk

**Swydd Newydd**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Owain James wrth ddechrau ar ei swydd newydd.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Daeth cynulleidfa niferus i Offeren Noswyl y Nadolig yn Eglwys Teilo Sant i ddathlu Gŵyl y Geni. Roedd awyrgylch arbennig yn yr eglwys wrth i'r ffyddloniaid droi i mewn o'r gwyll i'r eglwys oedd yn olau ac yn llawn lliw. Mae llawer o blwyfolion yr Eglwys Newydd yn mwynhau'r dathliad Nadolig yma yn hwyr y prynhawn ac maent wrth eu bodd yn ymuno yn y carolau Cymraeg.

Ar Sul cyntaf y flwyddyn, cawsom Offeren ar zoom gyda'r Tad Allan Jones yn dathlu o'i blwyf yn Daventry. Y tro yma roedd y gynulleidfa yn ymestyn dros Gymru gyfan a chyfarchion y Flwyddyn Newydd yn rhoi cyfle i ni obeithio am flwyddyn well i ddod. Cawsom hefyd gyfle i ddymuno pen-blwydd hapus i'r Esgob Regan wrth iddo ymuno â'r gynulleidfa o'i gartref ym Mhrestatyn.

Bydd Offeren Dydd Gŵyl Dewi yn cael ei dathlu yn Eglwys Teilo Sant nos Fawrth, 1 Mawrth am 6 o'r gloch. Mae llyfrynnau dwyieithog ar gael ac mae croeso cynnes i bawb.

27 Chwefror: 4.30pm Offeren Eglwys Teilo Sant

GŴYL DEWI: 6pm Offeren Eglwys Teilo Sant

6 Chwefror: 4.30pm: Offeren ar y we ac ar youtube

6 Mawrth: 4.30pm: Offeren ar y we ar Zoom

Cysylltwch â: carys@caerdelyn.com i dderbyn y ddolen.

## SALEM, TREGANNA

**Cydymdeimlo**

Trist iawn oedd clywed ein bod wedi colli ffrind annwyl, Eleri Rogers, oedd yn aelod mor hoffus a ffyddlon gyda ni yn Salem. Cydymdeimlwn yn fawr gydag Owain ac Angharad a'r teulu i gyd yn eu colled.

**Adran yr Urdd**

Cawsom noson gelf a chrefft yn y festri, ac ar 25 Ionawr fe ddathlon ni'r Urdd yn 100 oed! Rydym yn edrych ymlaen at lawer o weithgareddau'r Urdd yn y flwyddyn newydd. Mae ein recordiad o gân Mistar Urdd ar Twitter!

**Clwb y Bobl Ifanc**

Cawsom gwis dros Zoom nos Iau 27 Ionawr, a phawb wedi joio!

**Taith Noddedig**

Dros y misoedd nesaf bydd Evan, ein Gwenidog, yn gwneud taith gerdded noddedig o 70 km i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol, yr apêl enwadol, a gwneud hynny dros Gymru gyfan. Bydd yn cerdded 5km ym mhob Henaduriaeth o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru, gan annog aelodau a ffrindiau i ymuno ag e yn eu hardaloedd. Edrychwn ymlaen at glywed sut mae'n mynd dros y misoedd nesa. Pob lwc!

## TABERNACL, YR AIS

Braf oedd cael clywed bod Glenys Phillips a Cerith Williams wedi gwella ac yn ôl gartre yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty cyn y Nadolig.

Llongyfarchiadau i Rhodri ab Owen wrth iddo ddechrau cwmni newydd o'r enw Camlas.

Llongyfarchiadau hefyd i Siân E. Thomas wrth iddi dderbyn Medal Aur i ddynodi 35 blwyddyn o wasanaeth i Ambiwlans St. Johns.

Daeth clod i Hanna Edwards wrth iddi ennill Canwr Ifanc Iau yn Ysgol Plasmawr yn ddiweddar.

Ar Sul cyntaf yr Advent, tynnodd y Parchg Rosa Hunt ein sylw at y ffaith fod y Tabernacl yn dathlu dau gan mlwyddiant adeiladu'r capel gwreiddiol cyntaf ar y safle presennol.

Mae'n braf cael tynnu sylw at lyfr sydd newydd ei gyhoeddi – *Lesotho'n Galw* gan Gwenallt Rees. £5 yn unig yw cost y llyfr ac yn werth pob ceiniog.

Roedd yn hyfryd cael clywed bod Jen a Dafydd Williams wedi dathlu eu priodas aur toc wedi'r Nadolig.

Cydymdeimlwn â Nia McVeigh, Marc Jon Williams, Helen Preece ac Evelyn Rees wrth iddynt hiraethu am anwyliaid a fu farw yn ddiweddar.

Fe godwyd £480 yn yr organathon diweddaraf. Diolch i'r organyddion a'r casglwyr.

Trefnwyd Stondin Nadoligaidd ar ôl yr oedfa ar Sul cyntaf mis Rhagfyr. Codwyd dros £800 at ymgyrch Lesotho.

Ganol mis Ionawr cynhaliwyd y Clwb Darllen dros Zoom. Y llyfr dan sylw y tro hwn oedd *The Fortune Men* gan Nadifa Mohamed.

Cynhaliwyd oedfaon bob Sul dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mawr yw ein diolch i bawb am gynnal yr oedfaon dros y cyfnod anodd hwn.

## EGLWYS DEWI SANT

**Bedyddiadau**

Braf yw cael cofnodi bedydd Alys, merch Dafydd Tanner a Jo Lapit. Croeso iddi i deulu Dewi Sant.

**Y Nadolig**

Er gwaethaf Covid 19 llwyddwyd i gynnal gwasanaethau'r Nadolig dan amodau arbennig. Cynhaliwyd Carolau'r Cilgant yn yr awyr agored, a'r Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn yr eglwys ac fel podlediad. Noswyl Nadolig cafwyd gwasanaeth byr o garolau a myfyrdod ar Zoom, yna yn yr eglwys gweinyddwyd Cymun Cyntaf y Nadolig. Hefyd, fore Nadolig, gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn yr eglwys.

**Cinio Nadolig**

Cafwyd pryd a chymdeithas hyfryd yng Nghlwb Golff Llanisien brynhawn Sul 12 Rhagfyr. Diolch yn fawr i Delyth Davies am wneud y trefniadau.

**Diwrnod Rhodd**

Er mwyn cwblhau'r gwaith sydd ei angen ar yr adeilad nodwyd 28 Tachwedd fel Diwrnod Rhodd. Bu'r cyfraniadau yn hael iawn, a da yw medru adrodd y gall yr adeiladwyr gychwyn ar eu gwaith yn Chwefror.

**Cloch Dewi**

Unwaith eto yr ydym yn ddiolchgar iawn i Wyn Mears am gynhyrchu rhifyn Nadolig *Cloch Dewi*. Deunydd i'r rhifyn nesaf erbyn 4 Mawrth os gwelwch yn dda.

**Coffi a Chlonc**

Cynhaliwyd Coffi a Chlonc mis Rhagfyr ac Ionawr ar Zoom. Cynhelir y nesaf fore Sadwrn 19 Chwefror am 10.30. Croeso i bawb o bob safon i ymarfer eu Cymraeg.

**Gwasanaethau Chwefror**

Parheir i ddarparu o leiaf un podlediad bob Sul.

6 Chwefror: 8.00 a 10.30 Cymun Bendigaid;

13 Chwefror: 10.30 Gwasanaeth Aml Oed; 6.00 Hwyrol Weddi.

20 Chwefror: 8.00 a 10.30 Cymun Bendigaid;

27 Chwefror: 10.30 Boreol Weddi; 6.00 Cymun Bendigaid.

**Dathlu Degawd**

Aeth deng mlynedd heibio ers sefydlu Dyfrig Lloyd fel ein Ficer. Dros y cyfnod hwn cyfoethogwyd ein bywyd eglwysig dan ei arweinid mewn sawl cyfeiriad. Fel plwyfolion yr ydym yn diolch yn ddiffuant iawn iddo. Edrychwn ymlaen at gael ei arweiniad wrth i ni wynebu cyfnod newydd fel rhan o Ardal Weinidogaeth Calon y Ddinas.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon Chwefror 10.30am**
**Ysgol Sul yn y Festri**

6 – Oedfa Gymun - Delwyn Siôn
13 – Parchedig Denzil John
20 – Parchedig Robin Samuel
27 – Parchedig Glyn Tudwal Jones

**Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol**

Roedd yn Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2022 rhwng 18 a 25 o Ionawr, a thema'r wythnos oedd "*Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad*" (Mathew 2:2). Diddorol nodi mai brawddeg gyntaf y myfyrdod agoriadol oedd "*Yn y byd bregus ac ansicr hwn, rydym yn chwilio am oleuni.*"

Ac wrth i'r rhelyw ohonom eistedd i lawr i fwyta ein cinio Nadolig, dyna yn union oedd yn digwydd yn Kourou, Guyane Ffrengig, ar arfordir gogledd-ddwyrain De America.

Yno, o borthladd gofod yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd, am 12:20 p.m. fe lawnsiwyd gwerth $10 biliwn o Delesgop Gofod James Webb, a'i anfon ar ei daith hanesyddol i edrych yn ôl mewn amser ar enedigaeth (Y Glec Fawr) y bydysawd rhyw 13.8 biliwn o flynyddoedd yn ôl.

Dros y pythefnos dilynol rhaid oedd i'r telesgop, fesul cam gofalus, agor o'i blygiadau origami i ffurfio'n un blodyn hardd yn y gofod.

Dilyn ei ragflaenydd, Hubble a wna, a'i dasg - "gweld" (yn y sbectrwm is-goch [*infra-red*]) y sêr a'r galaethau cyntaf a ffurfiwyd o niwl y nwyon, pan oedd y bydysawd tua 200 miliwn o flynyddoedd oed.

Bydd, yng ngeiriau Cyfarwyddwr NASA, yn "*darganfod rhyfeddodau na allem hyd yn oed eu dychmygu*".

*"Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear"* medd Beibl William Morgan 1588 a'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004.

*"Ar y dechrau cyntaf, dyma Duw yn creu y bydysawd a'r ddaear"* medd Beibl.net

Gyda'r "*nefoedd*" eisoes wedi troi'n "*fydysawd*", beth, tybed, fydd gwaddol y "James Webb" i ni?

Wedi'r cyfan "*y mae'r cread yn llawer iawn hŷn nag ydyw bywyd ac y mae bywyd yn llawer iawn hŷn nag ydyw dyn.*"

## EBENESER

**Coffi a Chacen**

Y mae elusen Coffi a Chacen (Coffee & Cake), sydd â chaffi yn Llwynbedw, Caerdydd, yn darparu 250 o becynnau brecwast yn ddyddiol i blant anghenus sydd ddim yn cael digon o faeth. Mae pob pecyn yn costio £3.50 ac mae'n rhoi maeth i helpu'r plant gael digon o egni i ddysgu a chanolbwyntio yn ystod y dydd. Hon oedd elusen ddewisedig Ebeneser ar gyfer Nadolig 2021. Tros dri Sul llwyddwyd trwy garedigrwydd yr aelodau i godi £840, ac ar ben hynny cyfrannwyd dros £300 gan Ensemble Pres Cathays. Roedd hyn yn gyfanswm teilwng iawn i'n galluogi i noddi 325 o becynnau brecwast i blant anghenus lleol. Pan ymwelodd Siôn Corn yn dilyn gwasanaeth Nadolig y teulu eleni cafodd y plant anrhegion fel arfer ond cymerodd y cyfraniad ariannol i'w gyflwyno ar ein rhan i'r elusen. Ewch i https://www.facebook.com/CoffeeNcakesBirchgrove/ i ddysgu mwy amdanyn nhw.

**Elusen 2022**

Er gwaethaf heriau 2020 a 2021 soniwyd eisoes am lwyddiant codi arian i Uned Arennol, Ysbyty Plant Cymru. I ba gyfeiriad oeddem ni am fynd eleni? Daeth dau gynnig gerbron yr aelodau, sef City Hospice a Tir Dewi. Mae City Hospice yn elusen yma yng Nghaerdydd sydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Gancr Felindre. Mae'r elusen yn rhoi gofal lliniarol i gleifion sy'n dioddef o amryw o glefydau. Mae Tir Dewi, yn llinell gymorth, trwy Gymru gyfan, i gynorthwyo ffermwyr sy'n teimlo o dan bwysau Brexit, Covid-19. Ewch i'w gwefan, https://tirdewi.co.uk/ i ddysgu mwy. Yn dilyn pleidlais ar fore a phnawn Ionawr 23 dewiswyd Tir Dewi ar gyfer 2022. Ymlaen bo'r nod!

**Odid**

Yn ein hastudiaeth Feiblaidd ar nos Iau, dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn edrych ar chwech o broffwydi, er mwyn dysgu mwy amdanyn nhw, eu ffydd a'u dylanwad ar y bobl roedden nhw yn eu plith.

**Angor Grangetown**

Y mae criw Angor yn cyfarfod pob pythefnos am 4.30 y.p. yn Lufkin Coffee, Clare Road, Grangetown.

## BETHEL, PENARTH

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Iola ar achlysur marw ei thad. Byddwn yn dal i gynnwys yn ein gweddïau y cyfeillion sy'n troedio llwybrau salwch ar hyn o bryd.

Dros fisoedd Rhagfyr ac Ionawr buom, trwy weithgareddau amrywiol, yn cefnogi dwy elusen. Trosglwyddwyd £1250 i Achub y Plant a £300 i Banc Bwyd Penarth.

Pleser digymysg yn Nhymor yr Adfent oedd cael agor, yn ddyddiol, 'ffenestri' ein Calendr Adfent, sef, cyfraniadau amrywiol iawn ar ffurfiau digidol gan aelodau. Roedd yn rhyfeddod gweld a chlywed y doniau, gan gynnwys darlleniadau, caneuon, crefftau, negeseuon Nadoligaidd. Rydym yn ddiolchgar iawn i Siân ac Emma am fod yn gefn i'r cyfan a hefyd i'r cyfeillion am rannu eu 'goleuadau bach', na wyddem am eu bodolaeth.

Diolchwn i'n gweinidog am ein tywys yn oedfaon y ddau fis, gan bwysleisio prif neges y tymor bod geni Iesu yn arwyddo dyfodiad goleuni a gobaith i bob sefyllfa o dywyllwch ac anobaith.

Ar Sul 16 Ionawr am bump o'r gloch trwy Zoom dechreusom ar fenter newydd o gynnal Epilog dan arweiniad y gweinidog. Yn yr achlysur hwn, y thema oedd Gras. Yn yr ail Epilog, y thema oedd Doniau Amrywiol, gyda phwyslais ar i bob unigolyn sylweddoli bod pob dawn yn werthfawr yng ngwasanaeth Iesu.

Ddydd Mawrth, 25 Ionawr, cafwyd dathliad hwyliog i nodi cyfraniad y Santes Dwynwen. Unwaith eto datgelwyd doniau cudd ymhlith y cwmni, gydag un tîm yn serennu gyda sgôr o 38 a hanner allan o 40.

Wrth lunio'r nodiadau hyn (27 Ionawr), edrychwn ymlaen at groesawu'r Parchedig Glyn Tydwal Jones i'n harwain ar Sul ola'r mis. Bydd ei ddyfodiad yn arwyddo bod dyddiau gwell i ddyfod, Halelwia!

## BETHEL, RHIWBEINA

Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth Nadolig ar Ragfyr 19. Roedd yn bleser cael canu carolau a gwrando ar ddarlleniadau Nadoligaidd. Ar fore dydd Nadolig bu cyfle i ymuno gydag aelodau Salem mewn gwasanaeth ar Zoom.

Dros gyfnod yr ŵyl cawsom seibiant byr cyn ail-gychwyn ein gwasanaethau bore Sul. Ar 9 Ionawr roedd y gwasanaeth cymun yng ngofal ein gweinidog y Parchg Evan Morgan. Yn ystod y mis cawsom gyfle hefyd i groesawu'r Parchg Dafydd Owen, y Parchg Eirian Rees, a Mr Mansel Jones.

Ers diwedd Rhagfyr bu raid mynd nôl at y drefn o gyfyngu ar y niferoedd sy'n mynychu'r capel ond gobeithiwn y bydd y sefyllfa yn gwella cyn hir.

Mae sawl un o'n haelodau wedi cael anafiadau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dymunwn adferiad cyflym idddynt a chofion at bob un sy'n methu dod i'r capel oherwydd anhwylder.

## EGLWYS Y CRWYS

Mae nifer o'n haelodau wedi bod yn wael eu hiechyd dros yr wythnosau diwethaf. Cofiwn amdanynt a dymunwn adferiad buan iddynt.

Yn dilyn gwasanaethau hynod arbennig cyn y Nadolig gan Aelwyd Y Waun Ddyfal, yr Ysgol Sul a'r Gymdeithas, diolch o galon i bawb a fu'n paratoi ar eu cyfer ac i'r holl gyfranwyr.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Dechrau Blwyddyn dan nawdd y Gymdeithas ac mae'n diolch yn fawr i Hannah Thomas am waith manwl a graenus yn paratoi'r gwasanaeth.

Cynhaliwyd y Daith Gerdded flynyddol ar ôl y Nadolig a daeth criw bach ynghyd er gwaethaf y tywydd gwlyb i Barc Bute. Diolch i David Jones am drefnu'r daith. Braf oedd cael cyfarfod wyneb yn wyneb yn yr awyr agored a chyfle am sgwrs.

Bu drysau'r Crwys dan glo trwy gydol fis Ionawr oherwydd yr amgylchiadau a'r cyfyngiadau newydd ynglyn â COVID, ond ail-agorir am un oedfa yn unig ar y ddau Sul cyntaf o fis Chwefror cyn ail-agor yn llawn o'r trydydd Sul ymlaen. Cafwyd gwasanaethau rhithiol bendithiol iawn yn ystod mis Ionawr a diolch i Peredur Owen Griffiths am y trefniadau.

Ar Sul cyntaf mis Mawrth, yn ôl yr arfer, cynhelir Gwasanaeth Gŵyl Dewi yr Ysgol Sul yn yr oedfa foreol gyda'r Gweinidog yn gwasanaethu yn yr hwyr. Ar yr ail Sul, 13 Mawrth byddwn yn croesawu ein cyn-Weinidog y Parchg Glyn Tudwal Jones i wasanaethu; Y Gweinidog ar 20 Mawrth, a Mr William Tiplady yn oedfa'r bore ar 27 Mawrth. Byddwn yn ymuno â'n cyfeillion yn Eglwys Y Tabernacl yn yr oedfa hwyrol.

## MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet

Gweinidog: Y Parchg Owain Llŷr Evans

Mae Eglwys Minny Street yn parhau i ddilyn camau diogelwch cyson mewn oedfaon a chyfarfodydd, yn cynnwys diheintio, gwisgo mygydau, sylw i awyru ac annog aelodau i gadw pellter cymdeithasol. I'r rhai nad ydyn nhw mewn ffordd i fynychu'r capel, mae cyfle i ymuno ag un oedfa bob Sul drwy gyfrwng *Zoom.* Yn yr un modd, mae cyfarfodydd MATH, sy'n cael eu cynnal yn y festri, hefyd ar *Zoom.* Ar *Zoom* yn unig y bydd cyfarfodydd y Gymdeithas yn ystod y mis.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen yn fawr at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 6, 13 ac 20 Chwefror. Cynhelir oedfa gymun fore Sul, 6 Chwefror. Bydd oedfa 13 Chwefror yn oedfa gynnar (9.30). Byddwn yn croesawu y Parchedig Denzil John i arwain yr addoliad Sul olaf y mis (27 Chwefror). Yn ystod oedfaon 6, 20 a 27 Chwefror y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod.

**Gweithgarwch y mis**

Bydd PIMS yn cyfarfod nos Fercher, 2 Chwefror a nos Iau, 17 Chwefror (19.00). Yng nghyfarfodydd MATH fore Mawrth, 8 Chwefror a bore Mercher, 16 Chwefror (10.30), mae'n siŵr y cawn ein hysgogi eto gan ddelweddau celf amrywiol ynghyd â dehongliad diddorol ein gweinidog. Bydd y Gymdeithas yn croesawu Mati Roberts ar 8 Chwefror a Dr Llŷr Gwyn Lewis ar 22 Chwefror. Edrychwn ymlaen at holl weithgarwch y mis ac at sgwrs 'Dros Gymru'n gwlad ...' ein gweinidog fore Mawrth, 1 Mawrth.

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# NEGES O PHILADELPHIA

## Lowri Haf Cooke yn holi Catrin Brace

*Mae Catrin Brace, sy'n wreiddiol o Southerndown ym Mro Morgannwg, yn gyn-bennaeth marchnata Gogledd America dros Lywodraeth Cymru. Wedi blynyddoedd yn byw yn Efrog Newydd, mae hi bellach wedi ymgartrefu yn Philadelphia.*



**Ers pryd ydych chi'n byw yn Philadelphia, a beth ydych chi'n gwneud yno?**

Prynais i gartref yn Ardmore ger Philadelphia ym 2020. Roeddwn i wedi ymddeol o Lywodraeth Cymru yn Efrog Newydd ym 2018 a phrif bwrpas symud i Philadelphia oedd i helpu gyda fy wyres Olivia. Erbyn hyn, rwyn gofalu am Olivia ddau ddiwrnod yr wythnos, trefnu teithiau cerdded, ac yn gwneud eithaf tipyn o waith gwirfoddol i gymdeithasau Cymreig yn yr Unol Daleithiau.

**Sut mae'r sefyllfa yn Philadelphia ar hyn o bryd?**

Gwael iawn fel gweddill y wlad. Mae'r ysbytai yn llawn ac mae'r marwolaethau wedi bod yn cynyddu, yn enwedig ymysg pobl sydd heb eu brechu. Ond mae rhai arbenigwyr yn meddwl ein bod ni wedi cyrraedd y brig ym Mhennsylvania ac y bydd y ffigurau yn disgyn cyn hir.

**Ble oeddech chi ym mis Mawrth 2020, a sut wnaeth yr argyfwng Covid-19 effeithio arnoch chi a'ch teulu?**

Roeddwn i'n aros gyda fy merch a'i theulu ger Philadelphia. Roedd yn rhaid i Fabienne a Nick weithio o'u cartref o fis Ebrill ymlaen a dyna pam y penderfynais i brynu tŷ cyfagos er mwyn gofalu am Olivia y tu allan i'w tŷ nhw. Bues yn gofalu am Olivia bum niwrnod yr wythnos am flwyddyn a hanner. Yn ystod y cyfnod yma roeddwn i'n methu ymweld â theulu a ffrindiau yng Nghymru. Y tro diwethaf i mi fod adref oedd ym mis Medi 2019.

**Ym mha ffordd mae'r pandemig wedi effeithio ar gymeriad dinas Philadelphia?**

Mae'r pandemig wedi cael effaith wael iawn ar y ddinas. Mae llawer o fusnesau a siopau wedi cau. Mae nifer helaeth o bobl yn ddi-waith ac mae hyn wedi achosi digartrefedd, iselder a phroblemau gyda chyffuriau. Mae'r celfyddydau wedi dioddef unwaith eto gyda dyfodiad Omicron ac mae sut i addysgu plant wedi bod yn broblem parhaol i'r Adran Addysg. Ar nodyn positif, erbyn hyn mae pob person dros 5 mlwydd oed yn gallu cael y brechlyn am ddim yn UDA ac mae hyn yn helpu i gael plant a phobl ifanc yn ôl i wersi byw yn yr ysgol ac mewn prifysgolion.

**Rhwng gweithio o adre a chyfnodau clo, darganfuodd nifer o bobol eu milltir sgwâr o'r newydd; ble mae eich hoff le chi yno am ddihangfa, bach o awyr iach, neu i gael perspectif ar 'bob dim'?**

Rwyf wedi perswadio Cymdeithas Cymry Philadelphia i ddechrau clwb cerdded ac rydym ni wedi cael dihangfa ac awyr iach yn ddiweddar yn Hawk Mountain a Pharc Valley Forge (lle y bu Washington a'i fyddin yn dioddef chwe mis o galedi trwm yn ystod Rhyfel Chwyldroadol America). Rwyf hefyd wedi mwynhau bod yn rhan o grŵp rhyngwladol sy'n gwylio ffilmiau ac wedyn eu trafod ar Zoom.

**Beth all rywun wneud am hwyl ganol gaeaf ar ganol pandemig, yn Philadelphia ar hyn o bryd?**

Mae gweithgareddau yn yr awyr agored yn fwy diogel rhag Covid ac mae sglefrio ar byllau allanol yn boblogaidd iawn yn y ddinas yn ystod y gaeaf. Mae Philadelphia yn un o ddinasoedd hynaf yn UDA a gallwch ymuno â nifer fawr o deithiau cerdded diddorol i ddysgu mwy am ei hanes.

**Oes na agwedd neu ffordd o feddwl sy'n gynhenid i bobol 'Philly' ynglyn â'r pandemig all fod o gymorth i ni yng Nghymru ynglyn â goroesi misoedd y gaeaf ?**

Mae Philadelphia yn ynys Ddemocrataidd yng nghanol talaith sydd wedi ei rhannu mwy neu lai yn gyfartal rhwng y ddwy blaid. Yn yr etholiad diwethaf, yr oedd pleidlais Philadelphia yn hollol allweddol i ennill lle i Joe Biden yn y Tŷ Gwyn. Mae tua 80% o bobl Philadelphia wedi cael eu brechu ac maent yn gwisgo mwgwd hyd yn oed ar y strydoedd. (Gweriniaethwyr, yn aml, sydd yn gwrthod cael brechlyn neu wisgo mwgwd). Efallai bydd Philly yn dod trwy'r pandemig oherwydd yr agwedd yma.

**Wrth edrych ymlaen at y gwanwyn a'r posibilrwydd o wyliau haf... pan gaiff pobol deithio yn hwylus i Philadelphia, pa brofiad/au sy'n 'rhaid' eu profi yno?**

Dylai pawb roi Philadelphia ar ei 'restr wneud.' Crynwyr o Gymru wnaeth sefydlu rhannau o'r ddinas a'i chyffiniau (gallwch weld enwau llefydd Cymraeg ar hyd ardal y 'Main Line.') Yn Philly yr arwyddwyd Datganiad Annibyniaeth yr Unol Daleithiau. Mae'r ddinas yn llawn amgueddfeydd ac mae'r celfyddydau yn ffynnu yma. Yn yr haf, ceir gwyliau a chyngherddau yn yr awyr agored. Mae Philly yn lle da i siopa ac mae'r ddinas yn enwog am ei bwytai ardderchog.

# Siaradwyr Cymraeg Newydd

*"Beth am baned a chacen?"*

## Gwilym Dafydd



### Cofio Rachel

Rwy'n cofio sylwi ar neges e-bost Christine o Lanrymni fore Sadwrn, 8 Ionawr, yn gofyn i fi ei ffonio parthed newyddion trist. Syndod a thristwch oedd clywed bod Rachel wedi marw y dydd Gwener cynt.

Roedd Rachel yn un o wynebau cyfarwydd ein hoedfa Swmiaid Hapus misol. Bu'n rhaid anfon neges yn gyflym i weddill y cwmni oherwydd roedd cyfarfod gyda ni ar y bore Sul dilynol, 9 Ionawr.

Byddwn yn ei chofio o'i gweld ar Zoom – unwaith y mis fel nodais uchod ac yn Clonc amser cinio'r Brifysgol – roedd hi'n gweithio gyda Sheridon yn yr adran iechyd a diogelwch staff.

Roedd Rachel yn ymuno gyda ni o Abercraf, Cwm Tawe, yn ystod y cyfnod diweddar. Ei thad oedd John Douglas Coombe, gynt yn brifathro Ysgol Penrhos – bu farw 16 Awst, 2020. Margaret yw enw chwaer Rachel.

Rwy'n credu bod Rachel wedi gwerthfawrogi'r cyfle i ddarllen darn o'r Beibl neu emyn yn Gymraeg a gwnaeth hynny'n gyson yn ei ffordd dawel ac effeithiol.

Deallaf ei bod hi'n un o bobl Cymdeithas Ambiwlans Sant Ioan a sefydlwydd yn 1877. Gair o ddiolch felly yma am fywyd a gwaith ein chwaer annwyl Rachel Coombe.




***Dr Rachel Coombe gyda't torch Olympaidd yn 2012***

### O Glonc i Glonc

Ar ddechrau blwyddyn newydd arall mae nifer ohonom yn parhau i fynd o Glonc i Glonc, weithiau ar Zoom ac weithiau wyneb yn wyneb.

Rydyn ni'n ddiolchgar am dechnoleg Zoom oherwydd gall pobl ymuno o bellter. Yn yr Awr Hapus, boreau Llun, am ddeg o'r gloch yn ystod yr wythnosau diwethaf, cawson ni gwmni Deiniol o Aberplym a Mike Edwards mewn dillad tywydd haf yn fyw o Tenerife – 19 Celsiws yno ond 5 gradd yng Nghymru!

Y bwriad a'r gobaith yw y byddwn yn cyfarfod ar Zoom ac yn yr Hollybush bob yn ail yn ystod Mis Bach sef mis Chwefror.

Ymunais i â Chlonc Zoom Eglwys Dewi Sant, fore Sadwrn, 15 Ionawr. Roedd deg ohonom – Dyfrig, Mel, Moira, Delyth, Margaret, Julia, Deiniol (o Aberplym siwr o fod!), Jane a Sian Eleri.

Ydych chi'n gweld rhai o fy negeseuon i am Gloncs ar Trydar weithiau? Rwy'n rhoi un neges yn rheolaidd am un ohonynt ar nos Fercher. Dyma glonc John Lewis amser cinio dydd Iau rhwng 1 a 2 o'r gloch yn y bwyty, llawr tri. Mae wedi bod yn ddigon tawel yno yn ddiweddar ond mae Sean, Cathy, Ian, Eirian a fi wedi mwynhau ambell i sgwrs yno ers dechrau'r flwyddyn. Fel rwy'n trydar pob nos Fercher: croeso i bawb!

### Amser Jôc gyda Huw James

14 Tachwedd, 1921, oedd diwrnod olaf cyfnod Ifan Williams yn y carchar – cafodd e 5 mlynedd o garchar am fwrgleriaeth.

Wrth iddo adael Carchar Caerdydd, trosglwyddwyd iddo mewn hen fag brown ychydig o eiddo personol oedd ganddo yn 1916: dyddiadur, allwedd hen fflat a thocyn am drwsio esgidiau o Rheidol Cobblers, Stryd Chalybeate Aberystwyth.

Nôl yn Aberystwyth crwydrodd Ifan ar hyd yr hen strydoedd oer. Doedd dim gwaith ganddo a dim llawer o ffrindiau. Yna cafodd ei hun yn pasio siop y Cobblers. Tybed a oedd ei esgidiau dal yno?

Mewn ag e ac roedd yr hen ddyn piwis dal yno a throsglwyddodd ei docyn heb lawer o hyder.

'Mae hwn yn 5 oed' dwedodd e yn grac.

'Dwi'n gwybod' 'Iawn, edrycha i amdanynt' Dyna ychydig o sŵn twrio o gefn y siop. 'Maint 9?' 'Ie' 'Brown?' 'Ie' 'Brouges?' 'Ie'

Dychwelodd yr hen ddyn i'r cownter.

'Byddan nhw'n barod ddydd Mawrth.'

## Sglodion, Cyrn Ceir a Dilys Bob



A minnau wedi colli cael eisteddfota ers 2019, dyna fendith oedd darganfod rhai o elfennau nodweddiadol y gwyliau hyn o fewn pellter cerdded i’r Eglwys Newydd! Cerddoriaeth fyw, sinema maes, celf a chrefft, pebyll, addoliad Cristnogol, gweld ffrindiau hen a gwneud ffrindiau newydd…….. a’r cwbl heb bris mynediad!!

Ond nid y dyhead i gynnal gŵyl awyr agored oedd y prif bwrpas ar Lady Cory Field, Coryton, nac yn y Dolydd Gogleddol gerllaw, ond tynnu sylw at gynlluniau i newid yr ardal o fod yn un gwbl wledig i fod yn un trefol. Bwriad cam cyntaf y cynllun (76 tudalen, Cyngor Caerdydd, 2017) yw torri 350 o goed a di-wreiddio llystyfiant ar safleoedd Asda a Fferm y Fforest, sy’n Safleoedd Ardal Cadwraeth Natur Arbennig (dynodwyd yn 2008) er mwyn adeiladu pont a ffordd newydd drwy Barc Gwledig Fferm y Fforest. Yr ail gam fydd adeiladu maes parcio ar gyfer dros 800 o gerbydau, a Chanolfan Ganser newydd Felindre. Trwy Googlo *Save the Northern Meadows*, a *Colocate Velindre* cewch ddysgu am bryderon arbenigwyr meddygol ynghylch addasrwydd cynllun o’r fath ar y safle hon.





Mae trigolion fflatiau Hollybush (sydd heb erddi preifat) wedi llwyddo i drawsblannu un dderwen fach - ‘Dilys Bob’ – i’r stad. ‘Cadw’r Coed – ysgyfaint ein cymuned’ yw fy hoff slogan, gan fod 4 o 5 aelod fy nheulu yn dioddef o’r fogfa.

Os dych chi wedi canu corn car wrth ein pasio ar Heol Pendwyallt / Park Rd – diolch yn fawr! Yn fy mhrofiad i, menywod dros 50, dosbarth canol yw trwch yr ymgyrchwyr cyhoeddus (ar wahân i Iolo Williams a Swampy!), ond mae ‘na fyddin gudd gartre’ yn e-bostio pobl mewn awdurdod, yn ymchwilio, yn creu baneri a chanaris melyn (symbol awyr iach o’r pyllau glo), ac yn dod â fflasgiau diodydd poeth a weithiau sglodion a theisennau cartref i’n cefnogi. Croeso i fwy – fe fyddwn yn parhau i brotestio’n heddychlon cyhyd â bod anadl yn ein hysgyfaint (diolch i’r coed hynafol lleol!)

## Sylfeini Cyfieithu Testun
## Cyflwyniad i Gyfieithu Proffesiynol
## Ben Screen

Mae’r gyfrol hon yn tywys cyfieithwyr newydd a’r rhai sydd â’u bryd ar weithio yn y maes trwy brif egwyddorion llunio cyfieithiad da. Mae’n trafod gwaith cyfieithwyr o safbwynt diogelu lle’r iaith yn y gymdeithas, yn egluro beth sydd ei angen ar ddarpar gyfieithwyr o ran sgiliau a gwybodaeth, ac yn dangos y gwych a’r gwachul er mwyn cynorthwyo cyfieithwyr i lunio gwaith da heb y llediaith a’r cyfieithu lletchwith. Mae’n taflu goleuni ar yr amryfal dechnegau y mae cyfieithwyr cymwys yn eu defnyddio, o’r broses ddarllen hyd at y broses adolygu, ac mae’n gwneud hynny trwy enghreifftiau o gyfieithiadau go iawn a gyhoeddwyd. Mae’n trafod cyfieithu peirianyddol, dyfodol y proffesiwn, a sut i wneud y defnydd gorau o’r dechnoleg ddiweddaraf. Mae ymchwil academaidd hefyd yn elfen gref o’r gwaith, ac mae’r cyngor a’r canllawiau yn seiliedig ar yr ysgolheictod trylwyraf ynghyd â phrofiad yr awdur o’r byd cyfieithu proffesiynol.




‘Hyd heddiw mae hyfforddiant i gyfieithwyr yng Nghymru wedi dibynnu i raddau helaeth ar reddf a synnwyr y fawd. Bydd y gyfrol gynhwysfawr hon – sy’n cynnig, am y tro cyntaf, hyfforddiant manwl ar bob agwedd ar waith y cyfieithydd a hwnnw’n seiliedig ar fframwaith theoretig cadarn – yn gweddnewid y sefyllfa. Bydd yn adnodd amhrisiadwy i gyfieithwyr newydd a phrofiadol fel ei gilydd.’

Dyma ddywed Dr Sylvia Prys Jones, cyn bennaeth Uned Gyfieithu Prifysgol Bangor: Mae’r gyfrol hon yn gyfraniad pwysig a gwerthfawr i’r proffesiwn cyfieithu yng Nghymru. Wrth drafod y maes yn feirniadol am y tro cyntaf, mae’n torri tir newydd. Bydd iddi apêl eang ymysg cyfieithwyr, a bydd o ddiddordeb i gyfieithwr beth bynnag fo’u profiad.’

A dyma ddywed Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru: ‘Rheolwr Cyfieithu yw Ben Screen yn GIG Cymru. Cwblhaodd ei ddoethuriaeth ym maes cyfieithu a thechnoleg iaith yn 2018, ac enillodd ei radd yn y Gymraeg yn 2014, ill dwy yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd’.

Gwasg Prifysgol Cymru
www.gwasgprifysgolcymru.org
£24.99

# Pobol y Rhigwm

Yn y lle cynta, diolch yn ddiffuant i'r *Dinesydd* am y gwahoddiad caredig i gymryd yr awenau. Mae'r ymryson misol hwn wedi hen ennill ei blwy a dyma gynnig heddwch meddwl i'r rhigymwyr sy'n gynefin â'r grefft mai cynnal sylfaen gref Emyr yw nod y beirniad newydd! Gyda threigl y misoedd, felly, rhychwant o'r llon a'r lleddf, y caeth a'r rhydd, ac ati fydd gofynion y tasgau ac er mai cystadleuaeth yw hi, ennyn *creadigrwydd* yw'r nod yn y bôn.

Yn yr ysbryd hwnnw, felly, llongyfarchiadau am y peth wmbredd o greadigrwydd a gafwyd yn yr un ar ddeg o limrigau a ddaeth i law mewn ymateb i'r llinell dymhorol a osodais yn rhifyn mis Rhagfyr. Calonogol oedd cael casgliad dyfeisgar gyda'r limrigau'n mynd i sawl cyfeiriad gwahanol. Y ddawn honno i fathu syniad a'i fynegi ar fesur yw'r hyn rwy'n chwilio amdani yn y bôn a chefais i'n bendant ddim fy siomi yn hynny o beth. Fodd bynnag, dyletswydd beirniad yw pennu pwy gafodd yr hwyl orau arni. Llinyn mesur diogel iawn yw *cywirdeb mydryddol* – hynny yw, a yw'r limrig yn darllen yn esmwyth ac yn naturiol ac yn ei hanfod, yn swnio fel y dylai limrig wneud. Mae hyd yn oed arlliw o ddiffyg mewn mydryddiaeth limrig yn tynnu oddi arno'n syth, rhywbeth a grynhowyd i'r dim gan Emyr yn rhifyn mis Medi 2020 o'r *Dinesydd*:

*Mae limrig sydd heb ei fydryddu'n iawn yn gallu swnio'n gloff, felly mae'n werth darllen y cynnyrch yn uchel i wneud yn siŵr fod y rhythm a'r acennu'n iawn i'r glust. Mae ergyd y llinell glo gymaint cryfach os bydd yr hyn sy'n arwain ati'n dilyn y patrwm rheolaidd.*

Mae'n ddichon mai greddf y cynganeddwr yndda i ac Emyr sy'n peri rhoi cymaint o bwyslais ar *fydryddiaeth* fanwl gywir ond y gwir amdani yw bod hynny'n un o hanfodion creiddiol unrhyw gerdd ar fydr ac odl, ac yn fwy aml na heb fe fydd cerdd sy ddim yn glynu at batrwm acennu ac odli penodol yn syrthio'n fflat. Gallaf ond ategu'r hyn ddywedodd Emyr – darllenwch eich cerdd yn uchel ac os nad yw hi'n swnio'n esmwyth i'r glust, mae angen ei newid. Wedi'r cyfan, *crefft* yw llunio cerdd ac mae unrhyw grefft yn gofyn am ddisgyblaeth a gwaith meddwl.

Ar nodyn cadarnhaol, da iawn oedd gweld na fentrodd unrhyw un gynnig limrig 'difrifol' sef rhywbeth nad yw'r beirniad hwn yn ei hoffi o gwbwl! Cerdd ddoniol (neu ysgafn, o leia) yw'r limrig ac er bod hiwmor ynddo'i hun yn beth goddrychol, mae limrigau 'difrifol' yn teimlo'n groes i'r graen. Ataliwch, felly, rhag meddiannu mesur y limrig i fynegi rhywbeth dwys! Ta beth, digon o draethu, dyma nhw'r limrigau a ddaeth i law, gyda gair am y tri a ddaeth i'r brig ym marn y beirniad (sylwer bod yr wyth limrig arall wedi'u dangos yn y drefn y ces i nhw yn hytrach nag yn nhrefn teilyngdod):

Mae sat nav 'da Santa eleni
i fynd ar ei deithie yn gwmni,
aeth ar goll yn llwyr
cyrraedd plantos yn hwyr
A MA SAT NAV 'DA SANTA
ELENI !!!!!!!!!!!!!

***Teclyn***

Mae sat nav 'da Santa eleni
a'r hen foi n'i ddiawlo, a rhegi,
cafodd gic 'n 'i ben ôl
i fan pella'r North Pole
mae e nawr yn yr eira yn rhewi.

***Gwd Job***

Ma sat nav 'da Santa eleni
mae 'i amynedd 'da'r peth wedi
pallu,
cafodd gic 'ni ben ôl
i fan pella'r north pole
a ma rhyw bolar ber nawr 'di drysu!!

***"whare ber"***

Ma sat nav 'da Santa eleni
a'r trwbwl nath hwnnw achosi!!
Ma Riwdolff 'di mynd
nawr dim carw, dim ffrind
o achos ryw declyn bach sili!!

***Difaru***

Ma sat nav 'da Santa eleni
ma 'di ffidlan 'da fe hyd syrffedi,
ma 'di trio ei dolach
ond ddim tamed callach
a nawr ma'r dam thing wedi torri!!

***Tyff***

Am dridiau ar ôl Gŵyl y Geni
y llynedd, 'roedd plantos Pont
Senni
yn llefen y glaw,
ond tro 'ma fe ddaw;
mae sat-nav 'da Santa eleni.

***Ar Ddisberod***

Mae sat-nav 'da Santa eleni
A hynod o falch rwyf o hynny,
Cans llynedd caed strach
Bu Boris a'i ach
Yn gwagio ei sach mewn sawl
parti.

***Tan yr Esgair***

Clymais hosan wrth bostyn y
gwely,
Ond siom! Bore trannoeth, dim
ynddi.
Y tro hyn fe fyddaf
Yn effro 'da'r cyntaf.
Mae sat-nav 'da Santa eleni.

***Carw Dau***

Dyma'r limrigau a ddaeth i'r brig y tro hwn, y tri wedi'u mydryddu'n llwyddiannus ac yn darllen yn esmwyth o'r herwydd:

R'ôl myned ar goll rhwng Y Fenni
a'r hewl sy'n osgoi Penperlleni,
so fe, 'rhen Siôn Corn,
mo'yn mynd rownd yr Horn –
mae sat-nav 'da Santa eleni.

***Galifantiwr***

Mae gan *Galifantiwr* arddull tafodieithol naturiol iawn ac rwy wrth fy modd gyda'r ffordd iddo odli 'Siôn Corn' gyda 'rownd yr Horn' – mae Cymreigeiddio dywediad Seisnig yn swnio'n gomic yn y cyd-destun hwn, yn hytrach na swnio fel bratiaith (nid hawdd gwneud hynny).

Mae sat-nav 'da Santa eleni.
Mae'n dweud fod e'n declyn bach
handi
Sy'n gweithio ym mhobman,
A hynny heb drydan –
Mae'n rhedeg ar fins peis a sieri.

***Blitzen***

Rwy'n dwlu ar y limrig hwn, sy'n limrig cwbwl orffenedig – fe ddaeth diniweidrwydd diamser y llinell glo â gwên i'm hwyneb ac fel pob limrig gwerth ei halen, ei lwyddiant pennaf yw ei symlrwydd.

Mae sat-nav gan Santa eleni,
ond rhywle rhwng Dowlais a'r Fenni
drwy'r ffenest a fo;
aeth Santa o'i go'
yn gwrando ar lais Alun Lenny.

***Tecnoffob***

Rhaid i feirniad fynd yn ôl ei reddf ac er gwell neu er gwaeth, hwn oedd y limrig wnaeth beri i fi chwerthin fwyaf! *Tecnoffob* sydd â'r meddwl mwya gwreiddiol a chreadigol o blith y limrigwyr y tro hwn. Mae natur swrrealaidd y limrig

wedi'i fynegi'n wych. Ydy, mae'r Fenni yn cynnig ei hun fel odl ond Dowlais, wedyn?! Doeddwn i wir ddim yn disgwyl y llinell glo (marcie ychwanegol am odl fewnol!) felly gydag ymddiheuriade i Alun Lenny, druan, *Tecnoffob* yw arch-limrigwr y gystadleuaeth hon!


**Enillydd tasg Rhagfyr / Ionawr yw**
**Emlyn Williams, Trelluest**


**Y dasg ar gyfer mis Mawrth:**
**Triban ar y testun "Dewi"**

*Aron Pritchard*

Anfonwch eich cynigion erbyn 20 Chwefror, 2022 at: eirianagwilym@gmail.com Gwobr: Tocyn llyfr £10.

## Rhif: 220




### Ar Draws
7. 'Mae e'n golofn olau eglur
   Weithiau o niwl, ----- ----- ----- -----'(WW) (2,7,1,3)
8. Asgellwyr yn dwyn yn ôl i gof y paratoi at frwydr arall (8)
9. Alun bach yng nghanol cartre'r anifeiliaid gwyllt (4)
10. Arwydd fod llam yn dilyn cam heb ddechrau (6)
12. A yw Dyfrig yn troi'n anifail dŵr? (6)
14. Ges ti'r dillad? (6)
15. Lle corsog i'r sedd hongian (6)
17. Helpu Iolo ar yn ail wna'r plant (4)
20. Byddwn yn nes tro nesaf i ddal y fenyw ddieithr (8)
22. Cyfieithydd da ond bugail gwael (7,6)

### I Lawr
1. Mae Cadi a Meg yn gallu bod yn ysgolheigaidd (8)
2. Cyfanswm dweud dyn (6)
3. 'Wele'r ----- mawr yn dysgu
   Dyfnion bethau Duw' (WNW) (4)
4. Can cân operatig, tywyll Schubert annwyl (8)
5. Cywasgu'r cyfoes i'r carn (4)
6. Dalennau planhigyn (4)
11. Bues i a Ed yn trosi pethau i'w harwyddo (8)
13. 'Pan rydd yr Ionawr oer
    Ei ----- ----- yr ardd' (JCH) (6,2)
16. Cael briw go gas wrth iro llaw (6)
18. Y pennaf yn swnio fel trychfilyn (4)
19. Y 51 eilwaith yn blodeuo (4)
21. 'Agorwyd ----- yr Arglwydd yn y nef.
    A gwelwyd arch ei lân gyfamod Ef' (JH) (4)

**Enillydd Croesair Rhif 218**
**Sarah Barr, Rhiwbeina**

**Atebion Croesair Rhif 218**

**Ar Draws:** 6. Pererin 7. Ciwed 9. Hen 10. Caergaint 12. Rhag pob cilwg 15. Pardynau rhad 17. Mochyn cwta 19. Dur 21. Tafod 22. Munudyn

**I Lawr:** 1. Redeg 2. Nen 3. Eira 4. Dillad isaf 5. Pennawd 8. Treblu 11. Caed cymod 13. Pinacl 14. Darogan 16. Cudyll 18. Trum 20 Cur

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mawrth, 2022
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Tanysgrifio i'r *Dinesydd* 2022 - 2023

Mae'n siwr eich bod wedi sylwi bod y ffurflen danysgrifio flynyddol wedi'i gynnwys gyda'r rhifyn hwn o'r *Dinesydd*. Os ydych yn tanysgrifio'n flynyddol cofiwch lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd. Os oes gennych archeb seydlog gyda'ch banc cofiwch wirio bod y swm cywir yn cael ei dynnu allan o'ch cyfrif. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonoch sy'n cefnogi'r *Dinesydd.*

## Mis bach ond prysur i'r Mentrau!

Mae'r mis bach yn un prysur i ni ym Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg wrth i ni droi ein sylw at weithgareddau gwyliau hanner tymor.

Os ydych chi am i'r plant fwynhau diwrnod llawn hwyl, beth am eu cofrestru ar gyfer ein Cynllun Gofal? Cynhelir sesiynau rhwng 8.30 y bore a 5.30 y prynhawn yn ysgolion Treganna a Melin Gruffydd a'r gost yw £28 y dydd.

Bydd **Bwrlwm!** hefyd yn dychwelyd i Gaerdydd a Bro Morgannwg gyda sesiynau chwarae'n rhad ac am ddim mewn lleoliadau amrywiol. Ymhlith y gweithgareddau eraill sydd ar y gweill mae Sioe Fyw Buddug gyda Ffion Glyn, *Mewn Cymeriad*; gweithdai ffotograffiaeth, ffasiwn, graffiti a choginio, a bore o farchogaeth!

Cofiwch hefyd fod y clybiau arferol i blant yn parhau drwy gydol y mis, yn ogystal â'r sesiynau Amser Stori rheolaidd.

Bydd digon o weithgareddau difyr ar gyfer yr oedolion hefyd wrth gwrs.

Bydd sesiynau cerddorol 'Mewn Tiwn' yn ail-ddechrau yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina am 6 wythnos o fore Llun, 14 Chwefror am 11.30. Dyma bartneriaeth rhwng *'Live Music Now'* a Menter Caerdydd sy'n rhoi llwyfan i gerddorion proffesiynol a chyfle i chi fwynhau paned a sgwrs wrth wrando ar gyngherddau cymunedol anffurfiol. A'r newyddion da? Maen nhw'n rhad ac am ddim!

Testun 'Sgwrs y Mis', nos Lun, 28 Chwefror fydd 'gwin'! Edrychwn ymlaen at groesawu'r arbenigwr, Dylan Rowlands i'r cyfarfod, a chlywed mwy am yr hyn sy'n gwneud gwin da.

Dydy hi ddim yn rhy hwyr i gofrestru ar gyfer y cwrs 'Byd Natur a'r Beirdd' ychwaith! Bydd y sesiynau, sy'n bartneriaeth â'r elusen Coed Lleol, yn parhau bob prynhawn Llun am 2.00 yng nghwmni'r Athro Christine James. Fel gyda nifer helaeth o'n gweithgareddau ar Zoom, mae'r cwrs yn cael ei recordio. Felly, os na allwch fynychu bob sesiwn yn fyw, cofiwch gysylltu!

mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
https://www.instagram.com/mentercaerdydd/
post@mentercaerdydd.cymru Ffôn: 029 2068 9888




**GWEITHGAREDDAU HANNER TYMOR MENTER CAERDYDD A MENTER IAITH BRO MORGANNWG**

| | |
|---|---|
| Cynllun Gofal Treganna<br>Cynllun Gofal Melin Gruffydd | Llun 21.02 - Gwener 25.02<br>08:30-17:30 - £28 y dydd |
| Marchogaeth yn Liege Manor | Bore Mawrth 22.02<br>9-16 oed - Am ddim |
| Sioe Fyw Buddug gyda Ffion Glyn, 'Mewn Cymeriad' | Gwener 25.02<br>7-11 oed - Am ddim<br>Neuadd St Catherine's, Treganna. 11:00 |
| Cynllun Chwarae BWRLWM!<br>Sesiynau bore a phrynhawn mewn lleoliadau amrywiol yng Nghaerdydd.<br>Am ddim! | Ac yn y Fro:<br>Llun: Clwb Athletau Penarth<br>Mawrth: Ysgol Gwaun y Nant<br>Mercher: Clwb Rygbi Llanilltud Fawr<br>Iau: Ysgol Sant Baruc |
| Gweithdai eraill ar y gweill: Coginio; Ffotograffiaeth; Ffasiwn; Graffiti! | MC: Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565<br>MIBM - Rhif Elusen: 1179555. Rhif Cwmni: 08867706 |

## Neges o bwyllgor *Y Dinesydd*

Cynhaliwyd pwyllgor ar Zoom nos Iau, 27 Ionawr rhwng 6.30 ac 8 o'r gloch. Croesawyd Heulyn Rees, prifweithredwr newydd Menter Caerdydd i ddweud gair am y mentrau a Thafwyl. Mae Eiry Palfrey, Y Barri, wedi ymddeol fel un o'r golygyddion misol. Diolch Eiry am eich gwaith ac am roi sylw i'r Fro yn y cynnwys. Tybed a oes unrhyw un arall sy'n byw yn y Fro yn awyddus i gyflawni gwaith tebyg i Eiry a rhoi gofod arbennig i weithgareddau'r Fro unwaith y flwyddyn? Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i Hywel Jones fydd yng ngofal rhifyn mis Mawrth. Croeso'n ôl i Hywel a olygodd sawl rhifyn yn y gorffennol.

Trafodwyd hefyd y syniad o gynhyrchu *Y Dinesydd* llafar h.y. fersiwn llafar o'n papur bro a'r gyfer y rhai sydd yn cael trafferthion gyda'u golwg. Cyn symud ymlaen i weithio ar hyn, rydym angen gwybod a oes galw am y fath ddarpariaeth. Felly os gwyddoch am unrhyw un a fyddai'n dymuno cael *Y Dinesydd* fel copi sain, rhowch wybod os gwelwch yn dda: eirianagwilym@gmail.com